# Cymwysterau Cymru

Canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc



cognition
empowering people

# Cynnwys


**Cydnabyddiaethau** **2**

**1. Cyflwyniad** **3**

**2. Methodoleg** **4**

**3. Digwyddiadau** **6**

**4. Adborth o'r ymgynghoriadau** **8**

*1.* Prifysgol De Cymru 9
2. Coleg Menai 13
3. Coleg Cambria 15
4. Ysgol Uwchradd y Rhyl 20
5. Ysgol Gyfun Bro Morgannwyg 24
6. Ysgol Stanwell 28
7. Ysgol Sylfaenol Brynmawr 33
8. Coleg Sir Benfro 36
9. ACT Training – Grŵp 1 42
10. ACT Training – Grŵp 2 45
11. Ysgol y Strade 48
12. Ysgol Gynradd Glyncollen 51
13. Ysgol Stanwell 53

**5. Ymatebion i gwestiynau Cymwysterau Cymru, wedi'u grwpio yn ôl thema** **56**

**6. Crynodeb o'r themâu allweddol** **79**


# Cydnabyddiaethau


Hoffai Cognition gydnabod gwaith caled a chydweithrediad y plant a phobl ifanc wnaeth yr ymgynghoriad yma'n bosibl. Hoffem hefyd roi diolch a chydnabod cymorth y sefydliadau wnaeth hwyluso mynediad i'w plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys: ACT Training - Caerdydd, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg – Y Barri, Ysgol Sylfaenol Brynmawr - Glynebwy, Coleg Cambria – Wrecsam, Coleg Menai – Llangefni, Ysgol Gynradd Glyncollen – Abertawe, Coleg Sir Benfro – Hwlffordd, Ysgol Uwchradd y Rhyl – Y Rhyl, Ysgol Stanwell – Penarth, Prifysgol De Cymru – Pontypridd

# 1. Cyflwyniad

Ar 29 Medi 2011, lansiodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau adolygiad i edrych ar y cymwysterau oedd ar gael ar y pryd yng Nghymru. Yr amcanion oedd adnabod y cymwysterau mwyaf perthnasol, mwyaf gwerthfawr ac eglur a sicrhau bod rhain ar gael i bob dysgwr yng Nghymru. Roedd hefyd yn ystyried materion yn ymwneud ag asesu a mesur perfformiad cymwysterau. Rhedodd yr adolygiad o fis Medi 2011 a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2012.

**Cymwysterau Cymru**

Roedd Argymhelliad 5 yr adroddiad yn datgan:

> *Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru ein bod ni, Llywodraeth Cymru, yn sefydlu corff newydd yng Nghymru, sef 'Cymwysterau Cymru'.*
>
> *Y sefydliad hwn fydd yr un corff â chyfrifoldeb am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn radd yng Nghymru ac, ymhen amser, hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru. Bydd Cymwysterau Cymru'n symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru, gan ddod â swyddogaethau allweddol yn ymwneud â dylunio, datblygu, dyfarnu, cefnogi a sicrhau ansawdd cymwysterau yn un corff annibynnol ac awdurdodol.*

Comisiynwyd Cognition gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc ar eu barn ynghylch y cynigion hyn a materion cysylltiedig eraill.

Dros gyfnod o ddau fis, buom yn siarad â dros gant ac ugain o blant a phobl ifanc mewn 12 o wahanol sefydliadau ledled Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys eu hymatebion air am air i gwestiynau, a ofynnwyd ar y materion canlynol:

- Beth yw eich barn am gynigion Cymwysterau Cymru?
- Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer Cofnod Dysgu Personol (CDP)?
- Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

Mae'r ymatebion wedi'u cyflwyno fesul digwyddiad, wedi'u grwpio yn ôl thema ac yn grynodeb o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad.

# 2. Methodoleg

## Methodoleg cyffredinol y Gweithdai

Pwrpas Cognition trwy gydol yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ystyrlon a defnyddiol gan blant a phobl ifanc. Cafodd ein methodoleg ei anelu tuag at sicrhau bod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus a diogel, tra'n deall pwysigrwydd y materion dan ystyriaeth fel eu bod nhw'n berffaith fodlon ac abl i roi barn onest ac ystyriol.
Tra bod y gweithdai wedi'u teilwra i weddu i anghenion pob grŵp, yn gyffredinol, roedden nhw'n dilyn strwythur tebyg, gan ddilyn pedwar cam:

1. Croeso
2. Rhoi Gwybodaeth
3. Archwilio Materion
4. Casglu barn

### 1. Croeso

Gwnaethom ni ddefnyddio ystod o drafodaethau rhagarweiniol i greu amgylchedd llawn egni, ond hamddenol. Er bod union natur y trafodaethau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar oedran, gallu a pharodrwydd y gwahanol grwpiau dan sylw, roedd yr amcanion yn aros yr un fath:

- Cyflwyno staff Cognition a dangos ein bod ni'n bobl gyfeillgar a hawdd siarad â ni sy'n gwrando â pharch i'r hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud ac sy'n mwynhau ymuno â'r grŵp h.y. dechrau adeiladu perthynas.
- Dangos natur ryngweithiol, barchus y sesiwn gyfan, lle roedd pobl ifanc yn cael eu hannog i rannu eu syniadau a'u barn a gwneud hynny o fewn fframwaith glir, strwythuredig.

### 2. Rhoi Gwybodaeth

Er mwyn casglu barn ystyrlon, roedd hi'n hanfodol ein bod ni'n cyfathrebu manylion a chefndir cynigion Cymwysterau Cymru mewn modd clir ac atyniadol.  Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint wedi'i animeiddio oedd yn dangos y materion canlynol:

- Sut mae'r system gymwysterau 14 – 19 bresennol yn gweithio
- Y problemau a adnabuwyd yn yr Adolygiad Cymwysterau a'r achos am newid a wnaed ganddo
- Sut bydd system newydd Cymwysterau Cymru'n gweithio
- Y camau arfaethedig ar gyfer ei gyflwyno

## 3. Archwilio Materion

Rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau llai a rhoddwyd 10 i 15 munud iddyn nhw drafod y cynigion. Gofynwyd i grwpiau nodi eu syniadau ar bapur o dan y penawdau canlynol:

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

1. Manteision Posibl
2. Problemau Posibl
3. Cyngor ar gyfer Cymwysterau Cymru

Aeth hwylusydd Cognition o gwmpas y grwpiau yn ystod y trafod er mwyn ateb unrhyw gwestiynau ac er mwyn darparu cefnogaeth.

Archwiliwyd y pynciau ymgynghori eraill, megis barn unigolion ar y RhUD a'r cynigion ar gyfer CDP a dewisiadau o ran derbyn gwybodaeth am gymwysterau drwy drafodaeth uniongyrchol, wedi'i hwyluso yn dilyn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.

## 4. Casglu Barn

Fel hyn, pan oedd hi'n amser dod at y cwestiynau ymgynghori ffurfiol, roedd y bobl ifanc yn gallu ymateb gyda chryn dipyn o feddwl a thrafod ymysg ei gilydd. Cofnodwyd yr holl drafodion er mwyn darparu'r dyfyniadau gair am air isod.

# 3. Digwyddiadau

Roedd y dewis o grwpiau o blant a phobl ifanc i ymgynghori â nhw'n hynod bwysig i Lywodraeth Cymru ac i Cognition. Er mwyn casglu'r ymatebion mwyaf perthnasol ac ystyrlon, roedd ffocws yr ymgynghoriad ar y myfyrwyr rheiny sydd wrthi'n dilyn cyrsiau TGAU a Lefel A neu sydd wedi'u cwblhau nhw'n ddiweddar ac sydd wedi symud ymlaen i gyrsiau galwedigaethol neu addysg bellach ac uwch. Gwnaethom ni hefyd sicrhau fod y myfyrwyr addysg uwch mewn swyddi rhan-amser er mwyn cynnwys profiad o fyd gwaith.

Roedd y dull yma wrth wraidd ein dewis o grwpiau targed, gan ystyried oedran, rhyw, dewis iaith ac amrywiaeth rhanbarthol, yn ogystal ag ymgysylltu gyda gwahanol lwybrau, diddordebau a gallu addysgol.

Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgynghori mewn Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg a Chymraeg, Colegau, darparwyr hyfforddiant ac mewn prifysgol.

| Ysgolion | Math | Dyddiad | Ardal | Niferoedd |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Rhyl, Y Rhyl | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg | Ion 14 | Gogledd | 7 |
| Bro Morgannwg, Y Barri | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg | Ion 16 | De-Ddwyrain | 12 |
| Ysgol Stanwell, Penarth | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg | Ion 17 | De-Ddwyrain | 11 |
| Ysgol Sylfaenol Brynmawr, Glynebwy | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg | Ion 23 | De-Ddwyrain | 8 |
| Ysgol y Strade, Llanelli | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg | Chwe 3 | De-Orllewin | 14 |
| **Colegau** | **Math** | **Dyddiad** | **Ardal** | **Niferoedd** |
| Coleg Menai, Llangefni | Addysg Bellach | Ion 13 | Gogledd | 9 |
| Coleg Cambria, Wrecsam | Addysg Bellach | Ion 14 | Gogledd | 12 |
| Coleg Sir Benfro, Hwlffordd | Addysg Bellach | Ion 24 | De-Orllewin | 14 |

| Darparwyr Hyfforddiant | Math | Dyddiad | Ardal | Niferoedd |
|---|---|---|---|---|
| ACT, Caerdydd | | Ion 28 | De-Orllewin | 16 |

| Prifysgol | Math | Dyddiad | Ardal | Niferoedd |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru – Pontypridd | | Ion 7 | De-Ddwyrain | 8 |

Roeddem hefyd yn ei hystyried hi'n bwysig casglu barn plant nad ydynt wedi dechrau'n y system gymwysterau ffurfiol eto, gan mai nhw sydd yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio yn uniongyrchol gan ddyfodiad Cymwysterau Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, fe wnaethom ni gynnal cyfweliadau gyda grwpiau o blant ym Mlwyddyn 6 (plant 10 & 11 oed) a Blwyddyn 9 (13 & 14 oed) ac mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

| Ysgolion | Math | Dyddiad | Ardal | Niferoedd |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 6 – Ysgol Gynradd Glyncollen, Abertawe | Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg | Rhag 2 | De-Orllewin | 6 |
| Blwyddyn 9 – Ysgol Stanwell, Penarth | Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg | Ion 17 | De-Orllewin | 7 |
| CYFANSWM NIFER Y CYFRANOGWYR | | | | 124 |

# 4. Adborth o'r ymgynghoriadau

Yn dilyn, mae ymatebion air am air o bob un o'r prif ddigwyddiadau ymgynghori, yn nhrefn amser. Mae ymatebion wedi'u grwpio o dan brif benawdau'r cwestiynau ymgynghori:

- Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?
- Beth ydych chi'n ei feddwl am y cynigion ar gyfer Cofnod Dysgu Personol (CDP)?
- Sut fyddai orau gennych chi dderbyn gwybodaeth am gymwysterau?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r enwau arfaethedig ar gyfer TGAU newydd Mathemateg, Saesneg a Chymraeg?

Mae ymatebion wedi'u grwpio ymhellach fesul y themâu a gododd yn ystod y digwyddiadau ac maent wedi'u trefnu yn ôl faint o drafodaeth gynhyrchodd bob thema.

Rhoir yr ymatebion gan y ddau grŵp ychwanegol, cyn-arholiadau ar y diwedd.



# 1. Prifysgol De Cymru

Ion 7fed 2014

Myfyrwyr Blynyddoedd Cynnar a Gradd Addysg

8 cyfranogwr – 6 benyw, 2 wryw, gan gynnwys rhieni sengl a gweithwyr rhan-amser, 19 – 30 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Os oes gennych chi un corff yn unig ac mae pawb yn gwneud yr un arholiadau, yna mae'n decach i bawb, ond nid ar gyfer y bobl sydd eisoes wedi sefyll eu harholiadau.



## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ganfyddiad am y TGAU cyfredol**

Nid wyf yn credu ei fod yn syniad cystal, fy hun. Mae angen gwneud rhywbeth oherwydd y problemau gyda’r gwahanol fyrddau yn cystadlu â'i gilydd - nid yw hi’n system deg iawn o gwbl. Ond nid wyf yn credu bod yna lawer iawn o ystyriaeth ar gyfer y bobl sydd eisoes wedi sefyll cymwysterau. Mae rhai wedi talu i’w sefyll nhw, fel y gwnes i.

**Materion Gwleidyddol**

Erbyn i Cymwysterau Cymru ddod i rym, efallai y bydd rhywun arall wedi’i

ethol sy’n anghytuno gyda'r system newydd, felly mae'n bosibl na chaiff ei gyflwyno.

Mae pethau bob amser yn dod i rym sy'n newid, felly rydych chi hanner ffordd drwy gymhwyster ac mae’r diwedd yn y golwg ac yna mae rhywun o dop yr ysgol yn dweud 'O, rydyn ni’n mynd i newid hwnna nawr', a rydych chi’n gweithio am dair blynedd arall i gael y cymhwyster.

Digwyddodd yr un peth gyda'r cyfnod sylfaen, cafodd ei gyflwyno gyda'r syniad o beidio profi plant ifanc ar eu gallu mathemateg, darllen, pethau fel 'na, sydd nawr wedi newid yn llwyr gan fod corff newydd wedi dod i mewn ac mae’n debyg y bydd yn newid eto. Mae'n mynd yn groes i'r bwriad o’i ddechrau yn y lle cyntaf.

**Materion Ailsefyll**

Beth am bobl sydd eisoes wedi cael cymwysterau gan yr hen fyrddau – a fydden nhw’n cael cyfle i ailsefyll os y tybir fod y cymwysterau newydd yn 'well' na'r rhai gwreiddiol? A fydden nhw’n cael cyllid ar gyfer y math yna o beth?

**Cysondeb gyda gweddill y DU**

Beth am geisiadau prifysgol traws-gwlad - sut y bydd pobl yng Nghymru yn dod ymlaen pan maen nhw’n cynnig am le mewn gwahanol brifysgolion?

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

O ran cyflogwyr, rwy'n credu bod rhaid cael rhyw fath o safon neu strwythur penodol er mwyn ceisio sicrhau nad ydynt ddim ond yn defnyddio eu barn.

Rydym yn siarad am gyflwyno deddfau newydd felly pam lai na deddfu am hynny – beth bynnag sydd wedi digwydd yn y gorffennol, dyna ni, fel na all cyflogwyr ddiystyru cymwysterau cynharach. Mae’n rhaid cael cyfleoedd cyfartal.

**Arall**

Os yw Cymwysterau Cymru’n gweithio, dylai addo peidio â gwneud gormod o newidiadau sy’n effeithio ar fyfyrwyr wrth iddyn nhw fynd o gwmpas eu gwaith.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth ohono oedd yna.**

### Manteision CDP

Os bydd popeth yn mynd yn iawn, bydd un cymhwyster safonol, mae'r cyfan gennych chi i gyd ar-lein o'ch blaen chi, rwy'n meddwl y byddai hynny'n anhygoel i rywun sydd, dyweder yn 17 ac yn mynd drwy chweched dosbarth ac yn gwneud eu cais UCAS. Un o'r pethau anoddaf, yn enwedig os ydych chi'n gwneud BTech, yw dod o hyd i'r cymwysterau iawn - mae cymaint o wahanol deitlau.

### Diogelwch

Beth am bethau fel hacio, diogelu data? Gallai gael ei ddefnyddio ar gyfer twyll hunaniaeth.

### Mynediad

Fydd gan bobl ddewis i benderfynu pwy arall sy'n gallu gweld y wybodaeth? Fydd ganddyn nhw'r pŵer i ddweud 'na, dydw i ddim eisiau iddyn nhw ei weld e'?

## • Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

### Profiadau'r Gorffennol

Mi es i nôl i ailsefyll fy arholiadau TGAU ar ôl i mi adael yr ysgol. Bûm yn gweithio am bum mlynedd ac yna es i nôl i addysg. Es i weld cynghorydd gyrfa gan fy mod angen darganfod pa gymwysterau oedd angen arna i i mi fynd i Brifysgol.

Roedd gyda ni gynghorydd gyrfa yn yr ysgol, hefyd, felly roedd modd gwneud apwyntiad i'w gweld nhw.

### Hoffterau a Chyngor

Mae'n well gen i siarad â rhywun, siarad â bod dynol. Yn bersonol, byddai'n

well gen i wneud hynny nag edrych ar-lein.
Byddwn i wrth fy modd yn cael rhywbeth fel sianel YouTube, lle y byddech yn mynd arno a chael clip 15 munud i roi rhyw fath o syniad i chi am gyrsiau, lle yn hytrach na dim ond tudalen yn dweud 'byddwch yn dysgu am hyn, a’r llall ac arall', mae’n dangos beth fyddwch chi’n ei wneud.

Pan maen nhw’r oedran lle mae angen i blant fod yn mynd allan a gwneud y pethau hyn, nid yw llawer yn ddigon cydwybodol yr oedran hwnnw i chwilio’n weithredol, felly mae’n rhaid i chi roi’r ysbrydoliaeth iddyn nhw i fynd allan a’i wneud e. Felly mae gwahanol ffyrdd o’i wneud, fel defnyddio YouTube, yn dda oherwydd nad oes neb yn mynd i eistedd i lawr i ddarllen ffurflen.

O fy mhrofiad i roedd diffyg o ran pa swydd allech chi ei chael, beth allai hyn arwain ato. Roedd yn fwy 'mae'n rhaid i chi gael eich Lefel A' ond nid oedden nhw’n egluro pam ac at beth allai hynny arwain. Byddwn i wedi hoffi i rywun ddangos y llwybrau allwn i eu cymryd.



## 2. Coleg Menai

Ion 13eg 2014

9 cyfranogwr – 7 benyw, 2 wryw
6 myfyriwr o'r Diploma Trin Gwallt, 3 myfyriwr o'r rhaglen ymgysylltu Prentisiaethau, 17 – 21 oed

Grŵp Llandrillo Menai

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

### 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Os yw pawb yn sefyll yr un arholiad, yna mae pawb yn cael cyfle cyfartal.  All neb gwyno wedyn fod rhai arholiadau'n anoddach na'i gilydd.

Pan fyddan nhw'n cynnig am swydd yn y dyfodol, fydd pobl ddim yn cael eu barnu ar sail y bwrdd wnaeth ddyfarnu eu cymhwyster.

### 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ganfyddiad am y TGAU cyfredol**

Efallai y bydd yr arholiad newydd yn haws na'r arholiadau nawr. Efallai na fydd yn deg ar bobl sydd eisoes wedi sefyll eu harholiadau. Beth sy'n digwydd i'w cymwysterau nhw?
Efallai y bydd rhai pobl yn cael eu gorfodi i ail-sefyll eu harholiadau i geisio cyrraedd y lefel y maent yn gofyn amdano.
Efallai eu bod nhw wedi gwastraffu hyn a hyn o flynyddoedd yn yr ysgol.

**Cost**

Bydd yn llawer o waith i newid y cyfan, ac yn costio llawer o arian.

**Diweithdra**

Efallai y bydd pobl yn colli eu swyddi - yn y byrddau arholi.

### 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Lefel arholiadau newydd**

Dylent edrych yn ôl ar yr arholiadau wnaethom ni eu sefyll a'r hen bapurau a dod o hyd i rywbeth yn y canol, i wneud yn siŵr ei fod yn gyfartal, ei fod yn deg - nad ydynt yn gwneud un haws ac nad oeddem ni chwaith.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth ohono oedd yna.**

**Manteision CDP**

Bydd yn dda i gadw cofnod o ble rydych chi arni. Os byddwch yn anghofio eich canlyniadau maent yno i chi.
Gallai cyflogwyr ei weld oherwydd mae rhai pobl yn rhoi graddau ar eu CV sydd ddim hyd yn oed yn wir. Gallech roi'r rhif sydd ei angen arnynt a gallent ei wirio. Neu fe allech chi ei argraffu neu rywbeth.

**Diogelwch**

Gallai rhywun hacio eich gwybodaeth. Fel dwyn hunaniaeth.
Os yw pobl yn barod i dalu, gallech newid eich graddau i unrhyw beth.
Gallent fynd i mewn i'w cofnodion personol a'u newid nhw.

**Dibynadwyedd**

Allai popeth gael ei golli?

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Cefais wybodaeth drwy Gyrfa Cymru. Mi wnes i gysylltu â nhw a mynd i'r swyddfa ac fe wnaethon nhw fy rhoi i mewn cysylltiad â merch ar gyfer cyfweliad.
Roedd taflenni yn yr ysgol.
Roedd Gyrfa Cymru'n arfer dod i fy ysgol a chawsom gyfweliadau gyda nhw.

**Hoffterau a Chyngor**

Byddwn yn cysylltu â Gyrfa Cymru - byddwn i'n eu ffonio a gofyn iddynt am gyfarfod neu rywbeth.
Byddwn yn ôl pob tebyg am siarad â nhw am y coleg neu yrfaoedd. Byddai'n haws cael rhywun yn dweud wrthoch chi'n hytrach na gorfod chwilio am y wybodaeth ar-lein eich hun.

# 3. Coleg Cambria

Ion 14eg 2014

12 cyfranogwr – 6 benyw, 6 gwryw
Myfyrwyr yn astudio ystod o gyrsiau BTech a Diploma, 17 – 21 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Trosglwyddedd**

Bydd yn haws i fyfyrwyr symud i ysgol wahanol oherwydd bydd dim ond un cymhwyster. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn gwneud CBAC ond os oes angen i chi symud i ddinas wahanol am ryw reswm, byddai'n haws. Ar hyn o bryd, mae rhai ysgolion yn gwneud AQA, ysgolion eraill yn gwneud CBAC.
Rwy'n cytuno. Fe wnes i symud ac fe wnes i weld mod i'n ail-wneud pethau roedden nhw wedi'u gwneud yn barod ac maen nhw wedi gwneud pethau nad ydych chi wedi'u gwneud, felly mae'n bosibl i chi golli darn mawr o'r maes llafur.
Gallent fod yn dysgu maes llafur hollol wahanol. Felly gallech fod yn gwneud Llenyddiaeth Saesneg ac maen nhw'n astudio testun Shakespeare, ond nid ydych chi wedi'i astudio. Ac mae ganddyn nhw feini prawf marcio gwahanol ar gyfer gwahanol fyrddau.

**Symlrwydd**

Does dim dryswch. Rwyf newydd lenwi fy ffurflen UCAS ac roedd rhaid i mi ffonio tua pedwar bwrdd arholi gwahanol i ddarganfod pa arholiadau wnes i gyda nhw, lle pe bawn i'n gwneud y cyfan gyda Chymwysterau Cymru, ni fyddai'n rhaid i mi wneud hynny. Maen nhw'i gyd â theitl ychydig yn wahanol - roedd yna Astudiaethau Cyfathrebu Busnes a Systemau Cyfathrebu Busnes.
Rwy'n credu ei fod yn mynd i fod yn haws i golegau i gofrestru myfyrwyr oherwydd bydd gan bawb dim ond un math o gymhwyster.

**Iaith Gymraeg**

Os yw'n cyrraedd eu gweledigaeth nhw, yna fe ddylai gwella addysg i bob

myfyriwr ac efallai gallai annog yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.

**Tegwch**

Mae'n system fwy cyfartal, os yw pawb yn cymryd yr un arholiad, ac nid oes unrhyw fath o wahaniaeth yn mynd i fod.

**Arall**

Mae'n atal addysg rhag cael ei redeg yn fwy fel busnes. Os oes llawer o wahanol fyrddau'n cystadlu, yna eu prif nod yw gwneud arian.



## 2. Problemau Posibl

**Cysondeb gyda gweddill y DU**

Efallai y gallai helpu colegau yng Nghymru, ond beth os wyf am i gymryd fy nghymwysterau Cymraeg a symud i Loegr? A fyddai hynny'n anfantais i mi, gan y byddai'r bwrdd yn anhysbys, lle pe bai, dyweder dim ond CBAC ar gael, yna mae pawb yn gwybod pwy yw CBAC, tra bod Cymwysterau Cymru yn newydd i'r maes.
Ie, os ydw i'n gwneud y cymhwyster yng Nghymru, a fyddai'n cael ei ystyried cystal mewn gwledydd eraill?
Beth os, am ryw reswm, rhaid i mi symud i Loegr? Dweud fy mod i ym mlwyddyn 10, beth sy'n mynd i ddigwydd am fod ganddyn nhw'r holl Gyrff Dyfarnu yna a dim ond Cymwysterau Cymru sydd gyda ni? A yw'r maes llafur yn mynd i fod yr un fath â'r byrddau eraill?
Mae'r un peth yn wir y ffordd arall rownd hefyd.  Mi wnes i symud o Loegr i Gymru ac roedd newid enfawr yn y meysydd llafur.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Beth os yw'n cael ei weld fel safon uchel iawn a bod pob cyflogwr yn cytuno

mai Cymwysterau Cymru yw safon aur arholiadau, beth sy'n digwydd i'r bobl hynny wnaeth sefyll CBAC, Edexcel, beth sy'n digwydd i ni? Beth os ydym yn mynd i gyfweliad am swydd ac mae rhywun wnaeth Astudiaethau Busnes Cymwysterau Cymru, er enghraifft, a rhywun wnaeth wneud Astudiaethau Busnes CBAC, a ydynt yn mynd i ystyried yr un Cymwysterau Cymru yn well? Felly, byddwch yn dal i gael y broblem o fyrddau arholi'n cystadlu, ond dim ond yn cystadlu â'r gorffennol.

Mae'n ymddangos yn hollol hurt, os gall cyflogwyr wahaniaethu rhwng gwahanol fyrddau fel 'na oherwydd ar y cyfan, nid dewis ydym ni wedi'i wneud yw e. Ni ddylent gael yr hawl i wahaniaethu fel hynny.

Beth os yw cyflogwr ddim ond eisiau Edexcel ac nid oes gen i ddewis, dim ond Cymwysterau Cymru alla i ei wneud, yna efallai na fydd modd i mi gael fy swydd ddelfrydol?

**Materion gwleidyddol**

Atebolrwydd Cymwysterau Cymru: mae gennym gynrychiolydd etholedig ar hyn o bryd - Huw Lewis sy'n gyfrifol ac yn amlwg, os oes unrhyw beth aruthrol o'i le ar yr arholiadau, yna ef yw'r un y gallwn ddal yn atebol. Ond os nad oes cynrychiolydd etholedig yn arweinydd arno, pwy fydd yn gyfrifol? Rwy'n credu y dylai atebolrwydd i'r llywodraeth fod ychydig yn fwy uniongyrchol.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Gallai anfanteisio rhai myfyrwyr oherwydd bod rhai ysgolion yn defnyddio byrddau arholi sy'n addas ar gyfer eu myfyrwyr nhw, fel ysgolion arbenigol gyda phobl ag anawsterau dysgu, maent yn dewis byrddau arholi sy'n gweddu i'w myfyrwyr.

**Ystod y pynciau gaiff eu cynnig**

Mae fel y rhai od ydw i wedi'u gweld pan wnes i fy ffurflen UCAS – er enghraifft, fydd Cymwysterau Cymru yn cynnig TGAU mewn Rwsieg? A fyddant yn cadw ystod eang o gyrsiau?

**Arall**

Os daw hyn ar waith ym Medi 2015, beth os yw rhywun eisoes yn gwneud eu TGAU, yn mynd i mewn i flwyddyn 11 ac mae Cymwysterau Cymru, yn rheoleiddiwr, yn penderfynu bod y cymhwyster y maent yn ei wneud yn annheilwng, ydyn nhw'n mynd i golli'r cymhwyster yna? Rydych chi wedi

treulio blwyddyn o'ch bywyd tuag at hynny. Hyd yn oed os ydynt yn dweud y gallwch chi gario ymlaen a'i orffen, yna mae'n debyg i 'nid yw’ch cymhwyster yn werth dim ond gallwch ddal ati, mêt'.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Cynnwys cyrsiau newydd**

Rwy’n credu y dylai Cymwysterau Cymru hefyd roi sylw i ddysgu sgiliau bywyd. Rydym yn gwneud yr holl gymwysterau hyn ac rydym yn cael A ac A* ac yna rydym yn mynd am gyfweliad am swydd ac nid ydym yn gwybod sut i werthu ein hunain, nid ydym yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da. Dylai fod yn rhan o gymwysterau Cymwysterau Cymru.

**Ystod y pynciau a gynigir**

Gallent wella’r cymwysterau gaiff eu cynnig drwy wneud pynciau mwy arbenigol. Felly, os bydd rhywun am fod yn ddylunydd graffig, maen nhw’n cael gwneud cymhwyster yn hynny, achos bydd rhai ysgolion yn cynnig cyrsiau yn y cyfryngau ond nid mewn meysydd mwy arbenigol.

**Iaith Gymraeg**

Mae angen iddynt safoni'r Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr arholiadau oherwydd dywedwyd wrthym ni y gallem gael ein cosbi oherwydd ein bod wedi dysgu Cymraeg Gogledd Cymru, ond y byddai'n cael ei farcio’n y De.

**Arall**

Os ydynt yn mynd i fod yn gorff rheoleiddio o Medi 2015, pam na allant jyst cadw ymlaen i wneud hynny? Os ydynt yn mynd i wneud yn siŵr bod yr holl arholiadau yn ddigon da i’r myfyrwyr eu sefyll, pam oes rhaid iddynt wedyn ddod i mewn â’u harholiadau eu hunain?

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o’r RhUD – Rhif Unigryw’r Dysgwr. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth ohono oedd yna.**

Ble ydych chi'n dod o hyd i’ch RhUD? Dydw i erioed wedi ei dderbyn.
Roeddwn i yn y DVD am y peth, ond dydw i erioed wedi cael y rhif.
Os ges i gerdyn pan oeddwn yn 14 gyda fy RhUD, byddwn yn colli hwnnw

mewn curiad calon. Rwy'n credu y dylai jyst fod ar eich tystysgrifau yna, os bydd ei angen arnoch, mae gennych sawl peth ag ef arno.
Dylech fod yn gallu ei gael drwy Gyrfa Cymru. Os oes gennynt eich CDP, dylent gadw eich RhUD yn ogystal. Gallech gael mynediad ato gyda chwestiwn diogelwch.

**CDP**

Rwy'n credu ei fod yn syniad gwych oherwydd yn yr Ysgol Uwchradd fe wnaethon nhw ein rhoi ni ymlaen ar gyfer arholiadau eraill fel teipio cyffwrdd a phethau a does gen i ddim syniad beth oedden nhw. Felly, pe bai gen i un o'r rhain oedd yn gwybod yr holl gymwysterau oeddwn i wedi’u gwneud, gyda pha fwrdd arholi, beth oedd ei enw a pha radd wnes i ei gael, byddai’n bendant yn fantais.

**Dibynadwyedd**

Os gellir ei roi ar waith yn iawn, yna mae'n dda ond beth os yw'n chwalu?

**Diogelwch**

Beth sydd i atal pobl oedd am fynd i, dyweder Caergrawnt neu Rydychen, rhag hacio i mewn i'r safle a newid eu canlyniadau lefel A?

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau’r Gorffennol**

Rwy’n cael gwybodaeth ar-lein. Rwy’n defnyddio Google ar gyfer popeth. Rwyf wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru. Mae'n wefan anodd i’w deall. Doedd hi ddim yn arfer bod, ond mae hi nawr. Maen nhw wedi diweddaru’r system eto ac rydych chi’n teipio rhywbeth i mewn, rydych chi wedi cofio lle mae e i fod, ond erbyn hyn mae'n rhaid i chi fynd drwy tua chwech o adrannau gwahanol dim ond i ddod o hyd i beth rydych ei angen.

**Hoffterau / Cyngor**

Yn hytrach na chwilio am gyrsiau neu beth bynnag ar y we, ac yna gorfod edrych i weld pa raddau sydd angen arnoch chi, byddwn i'n gofyn i fy nhiwtor.
Ar wefan Gyrfa Cymru, allen nhw gadw’r holl godau cwrs yr un peth? Maen nhw’n diweddaru'r system bob chwe mis ac mae'r codau yn newid.

# 4. Ysgol Uwchradd y Rhyl

Ion 14eg 2014

7 cyfranogwr – 4 benyw, 3 gwryw
Myfyrwyr Blwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU, 15 – 16 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Materion Gwleidyddol**

Mae llai o fewnbwn gan y llywodraeth. Gallai hynny fod yn dda oherwydd os nad yw'r llywodraeth yn hoffi rhywbeth da mae Cymwysterau Cymru'n ei wneud, fydden nhw'n gallu gwneud dim amdano, ond gallai hefyd fod yn bwynt drwg oherwydd os nad oes gan y llywodraeth fawr o reolaeth, weithiau gall pethau fynd yn braidd o draed moch ac ni fyddent yn gallu gwneud unrhyw beth i atal hynny.

**Tegwch**

Ni allant ddweud bod un cymhwyster yn well nag un arall pan fyddwch yn gwneud cais am swydd. Ni allant wrthod un person achos cymhwyster am ei fod yn fwrdd gwahanol.

**Symlrwydd**

Mae'n un bwrdd arholi felly mae'n llai o straen i'r ysgolion ddewis.
Mae'n system fwy cyfartal, os yw pawb yn sefyll yr un arholiad, ac nid oes unrhyw fath o anghyfartaledd yn mynd i fod.



## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Gallai fod yn ddryslyd i'r athrawon, gyda'r holl wahanol gyfnodau - y trawsnewid. Un funud, gallent fod yn dysgu CBAC a'r funud nesaf gallent fod yn dysgu Cymwysterau Cymru.
Mae'n llwyth gwaith ychwanegol i'r athrawon. Byddai'n rhaid iddynt wneud cynllun gwaith cwbl newydd. Mae rhai ohonynt wedi bod yn gwneud yr un peth am flynyddoedd.

**Effaith ar rieni a theuluoedd**

Bydd yn ddryslyd i rieni hefyd, a gallech chi gael chwaer mewn blwyddyn is a'i bod hi'n cymryd cymwysterau gwahanol ac mae hi'n gofyn cwestiynau i chi ac nid ydych chi'n gallu eu hateb nhw mewn gwirionedd.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Os mai dim ond un bwrdd arholi sydd yna, ni fydd yr ysgol yn gallu dewis bwrdd arholi sy'n addas i bobl sy'n cael gwaith yn anodd, er enghraifft, ysgrifennu. Gallai fynd yn erbyn pobl sydd ag anghenion arbennig.

**Lefel yr arholiadau newydd**

A fydd cymwysterau Cymwysterau Cymru yn cael eu barnu fel naill ai'n fwy gwerthfawr neu'n llai gwerthfawr gan gyflogwyr yn y dyfodol? Gallai eu gwerth ostwng, fel fod A nawr yn gyfwerth ag C mewn ychydig flynyddoedd, gan ddibynnu ar pa mor anodd yw'r cymhwyster newydd.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Os ydynt yn gwneud yr arholiad newydd yn haws na'n rhai ni, yna efallai y bydd gwerth uwch yn cael ei roi ar ein rhai ni ac efallai na fydd y lleill yn cael swyddi.

**Diweithdra**

Os oes gennych bum bwrdd nawr ac rydych yn cael gwared â nhw, bydd pobl yn colli eu swyddi, a bydd diweithdra yn codi.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Rwy'n credu y dylai fod rhyw fath o lythyr safonol neu rywbeth i gyflogwyr i ddweud eu bod yr un fath, eu bod nhw'n gyfwerth, fel nad ydynt yn drysu,

nad ydynt yn credu fod un yn well na'r llall.

**Pontio**

Rwy’n meddwl y dylai'r dyddiad dechrau, Medi 2015 gael ei ohirio tan 2016 gan fod 2015 ychydig yn rhy gyflym.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o’r RhUD – Rhif Unigryw’r Dysgwr. Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth ohono.**

Mae angen iddynt roi gwybod i ni am hyn i gyd. Anfonwch lythyr ni - ond mewn iaith syml. Efallai gyda cherdyn gyda'r rhif, fel ar gerdyn gyda’ch rhif Yswiriant Gwladol.

**CDP**

Mae’n haws na cheisio dod o hyd i waith papur ymhob man.

**Diogelwch**

Gallai rhywun ddwyn eich RhUD a chael gafael ar eich cofnodion a dwyn eich hunaniaeth. Mae angen cyfrinair personol.
Beth sy'n digwydd os oes firws neu rywbeth, ac mae'r cyfan yn cael ei ddileu? Mae angen copi wrth gefn priodol.

**Dibynadwyedd**

Pwy sy'n rhoi’r holl wybodaeth yn eich CDP? Gallent wneud camgymeriadau, gwallau dynol a gallech ddioddef.

**Mynediad**

Mae llawer o bobl sydd heb fynediad i'r we.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Rwy wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru. Mae'n hawdd i'w defnyddio.

**Hoffterau / Cyngor**

Hoffwn i fynd i ddiwrnod agored.

Byddwn i'n defnyddio Google.

Dylech ffonio'r coleg a gofyn am lyfryn. Byddwn i'n cael fy Mam i wneud hynny. Fyddwn i ddim yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.
Dylai fod Ap gyda chyrsiau arno.



# 5. Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Ion 16eg 2014

12 cyfranogwr – 6 benyw, 6 gwryw
Myfyrwyr Blwyddyn 12 yn astudio ar gyfer Lefel A,
17 – 18 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

Rwy'n credu ei fod yn syniad da, dim ond fod yna lwyth o bwyntiau y bydd angen iddyn nhw feddwl amdanynt nhw cyn iddyn nhw ei wneud.

**Symlrwydd**

Mae'n llai cymhleth. Os oes gennych un arholiad ac un bwrdd arholi, mae pawb yn cael eu cymharu'n deg yn erbyn ei gilydd. Mae'n neis ac yn gytbwys ledled Cymru.
Os oes problem gydag arholiad, bydd pawb yn cael yr un broblem a bydd yn llawer cyflymach i unioni pethau.

**Tegwch**

Bydd yn golygu bod pawb yn gyfartal. Os ydych yn gwneud yn well mewn arholiad na rhywun arall, yna rydych yn gwybod eich bod yn ei haeddu. Mae wir yn dangos i rywun pa mor galed y maen nhw wedi gweithio.
Dylai roi gwell siawns i chi o gael lle mewn prifysgol, os yw'r holl fyrddau arholi yn gyfartal oherwydd bydd eich cymhwyster yn cyfrif am yr hyn ydyw.

**Hyder**

Bydd yn rhoi hwb i hyder yn y system addysg, fel na fydd yna unrhyw amheuaeth ynghylch â rhai cymwysterau yn cyfateb i rai eraill ai peidio. Bydd hefyd yn rhoi hwb i hyder yr ysgolion, disgyblion, prifysgolion, y wlad i gyd - hyder mewn Cymru fel gwlad.

## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Bydd yn effeithio ar ddysgu o fewn yr ysgol. Yn amlwg, gyda Hanes rwy’n gwybod bod strwythur penodol ar gyfer pob cwestiwn. A fyddai strwythur y cwestiynau a sut mae'n rhaid i chi ateb newid, gan ei fod yn wahanol ar gyfer pob bwrdd arholi? Felly, bydd yn effeithio ar y ffordd y mae pethau'n cael eu dysgu.

Rwy’n meddwl bod rhai athrawon yn ddisymud yn y ffordd y maen nhw’n dysgu pethau, dim ond yn gwneud yr un peth ac rwy'n credu y bydd hyn yn eu taflu a fyddan nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud. Os oes rhaid i chi ddweud wrth athro i ddysgu TGAU cwbl newydd, maen nhw wedyn yn gorfod ei ddysgu eu hunain a sut i’w ddysgu i bobl. Ni all pawb ymdopi gyda'r math yna o bwysau.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Os yw pawb yn meddwl bod arholiadau yn mynd yn haws, a fydden nhw’n fwriadol yn gwneud yr arholiadau newydd yn galetach, i brofi pwynt nad ydyn nhw’n mynd yn haws? Fyddan nhw’n dewis CBAC a dweud 'mae eu harholiadau nhw’n iawn' fel eu bod nhw’n seilio'r arholiadau newydd ar y lefel honno?

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Pan fyddant yn cyflwyno’r rhai newydd, efallai na fydd ein cymwysterau ni’n cael eu gweld cystal â'r un newydd, felly efallai y byddwn yn cael ein hystyried yn weithwyr dosbarth is – ddim mor gymwys â’r rhai newydd sy’n dod i mewn.  Ond erbyn hynny, efallai y bydd gyda ni fwy o brofiad, felly dylai, gobeithio, lefelu allan mewn ychydig o flynyddoedd.

**Materion ailsefyll**

Beth am bobl sy’n ailsefyll arholiadau, sut fydd e’n effeithio arnyn nhw?

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Lefel yr arholiadau newydd**

Os ydynt yn eu rheoleiddio nhw’r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ar ôl hynny, yna gallant weld cyfraddau fflwcs, os bydd y gwahanol fyrddau yn cael graddau da, graddau drwg, mwy o gwynion, fel y gallant strwythuro oddi ar bob bwrdd arholi. Maent yn gallu cymryd y rhannau da o bob bwrdd arholi i wneud yr un gorau.

Gallant wneud cynllun peilot. Dyweder, y flwyddyn cyn iddynt eu cyflwyno,

gyda’r rownd bresennol o fyfyrwyr, gallent roi arholiad iddynt ac os yw hwnnw’n rhy galed neu'n rhy hawdd, gallant ddysgu oddi wrth hynny. Ond ni fyddai mewn gwirionedd yn cyfrif am unrhyw beth.
Ie, dylech chi’n bendant ei brofi. Allwch chi ddim ddisgwyl iddyn nhw gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Nid yw'r byd yn gweithio fel 'na.
Os yw Cymwysterau Cymru yn rheoleiddiwr, gadewch iddynt sefyll eu harholiad arferol, ac yna sefyll yr un newydd yn syth wedyn a dweud 'nid yw hyn yn cyfrif am unrhyw beth'. Yna, fe allech chi weld sut wnaeth pobl neu ddweud am y peilot, fod pawb wedi gwneud yn dda iawn, neu’n wael iawn, neu’n jyst iawn.

**Cefnogaeth**

Rwy'n credu y dylai fod yna gefnogaeth gyson gan y bwrdd arholi gan fod CBAC ddim ond yn ymddangos ar ddiwrnod ein harholiad. Nid ydynt yn esbonio'r hyn a ddisgwylir ohonom a phethau fel 'na, maen nhw’n disgwyl i'r athrawon egluro'r cwrs. Rwy’n credu cyn bod pobl yn dechrau eu cwrs TGAU, dylai cynrychiolydd Cymwysterau Cymru ddod i’r ysgol ac egluro beth a ddisgwylir ganddynt, nid dim ond ymddangos ar ddiwrnod yr arholiad gyda phapurau arholiad yn eu dwylo.

**Cynnwys y cyrsiau newydd**

Mae'n mynd i herio sgiliau dysgu’r athrawon, ond rwy’n meddwl na ddylech chi fod yn ateb ar strwythur yn unig, dylech fod yn ateb ar eich gwybodaeth am y pwnc. Ar gyfer ein Hanes, er enghraifft, maent yn gwneud atebion strwythuredig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'n dda oherwydd gallwch fel arfer ei gael yn iawn, ond yna rydych chi braidd fel robot pan fyddwch yn ateb. Dylai'r arholiadau newydd fod fwy am eich dealltwriaeth.

**Strwythur yr arholiadau newydd**

Rwy’n credu y dylai Cymwysterau Cymru gadw’r strwythur modiwlar ar gyfer yr arholiadau newydd.

**Arall**

Dylai'r arholiadau newydd wobrwyo sgiliau datrys problemau yn hytrach na chof yn unig. Mae cof yn bwysig, ond mae llawer o gyrsiau y dyddiau hyn sydd yn y bôn yn dibynnu ar 'dysgwch e'.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth ohono. Dywedodd y mwyafrif yr hoffen nhw gael y rhif ar gerdyn plastig.**

Cerdyn. Dylai gael ei gyhoeddi fel eich Rhif Yswiriant Gwladol.

**CDP**

Mae'n syniad gwych. Mae'n fwy syml, fel y gall cyflogwyr edrych arno a gweld pa raddau sydd gyda chi mewn TGAU ac mewn Lefel A.

**Diogelwch**

Ond hefyd, mae'n siwr y byddai modd ei hacio'n eithaf hawdd a newid canlyniadau.

**Dibynadwyedd**

Beth os yw'r system yn chwalu, neu'r gweinyddion yn methu?

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Rwy'n cael gwybodaeth o unistats.com

Athrawon

Prosbectysau

Rwyf wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru, ond nid ydw i'n ei hoffi. Mae'n rhy gymhleth. Mae'n rhaid i chi logio i mewn, adnewyddu'r dudalen, mynd i lawr y dudalen, mewngofnodi eto, yna mae'n dweud eich bod chi eisoes wedi logio i mewn, felly rydych chi'n ail-lwytho'r wefan ac yna mae'n rhaid i chi newid eich enw defnyddiwr. Ac os ydych chi'n chwilio am brofiad gwaith, nid yw'n rhoi enw'r cwmni i chi. Mae braidd yn dwp.

**Hoffterau / Cyngor**

Rwy'n credu mai cyngor wyneb i wyneb gan athrawon sydd orau.

Hoffwn i ei gael ar fy ffôn symudol, ar ffurf Ap

# 6. Ysgol Stanwell

Ion 17eg 2014

11 cyfranogwr – 5 benyw, 7 gwryw
Cymysgedd o fyfyrwyr Blwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU a myfyrwyr Blwyddyn 12 yn astudio ar gyfer Lefel A, 15 – 18 oed

## Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

### 1. Manteision Posibl

**Symlrwydd**

Mae'n ei gwneud yn symlach. Mae llai o ddryswch rhwng pa un i'w ddewis ac a ydych chi'n gwneud yr un cywir.
Bydd llai o bwysau ar ysgolion i ddewis pa fwrdd fydd fwyaf buddiol i'w disgyblion oherwydd bydd dim ond un i'w ddewis.
Drwy wneud pob arholiad ysgrifenedig gan yr un bwrdd arholi, ni fydd yna unrhyw wahaniaeth yn arddull arholiadau. Er enghraifft, mae'n rhaid i ni bob amser ysgrifennu Cymwysterau Cymru (Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig) - ond gyda rhai byrddau arholi nid ydych yn ei wneud ac mae rhai byrddau lle rydych chi'n gwneud. Felly, bydd y cyfan mewn arddull arholiad tebyg ac yn haws i bobl ei gofio.

**Hyder**

Bydd disgyblion yn fwy hyderus eu bod yn cael eu profi'n iawn oherwydd os ydyw nhw'n defnyddio byrddau arholi gwahanol mewn gwahanol ysgolion, efallai y byddant yn poeni nad ydynt yn gwneud y gorau. Felly, gyda arholiadau Cymwysterau Cymru, byddant yn gwybod yn bendant y byddant yn sefyll prawf teg.
Gan y bydd Cymwysterau Cymru'n cael ei redeg gan y llywodraeth, byddant yn gweithredu er lles gorau'r defnyddiwr ac ni fyddant, fel yr holl gwmnïau hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, ni fydd unrhyw gymhelliant ariannol. Ni fyddant am wneud elw. Mae'n ymddangos bron braidd yn llygredig i adael i fusnesau gystadlu am y pethau hyn sy'n effeithio ar ddyfodol pobl.

**Ansawdd**

Yn ôl pob tebyg, fe allech chi ddewis yr awduron arholiad gorau o'r byrddau arholi ar gyfer Cymwysterau Cymru, a fydd yn ei wneud yn fwrdd mwy effeithiol.



## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Fel rhywun sydd eisoes wedi sefyll TGAU a fydd wedi gorffen fy Lefel A erbyn y bydd hyn yn effeithio ar bobl, fy mhryder cyntaf yw bod cael y system newydd yn awgrymu bod yr hen un yn annigonol, fel bod popeth mae pobl wedi'i wneud eisoes yn mynd i gael ei danseilio braidd gan yr hyn sy'n dod i mewn yn y dyfodol. Mae hynny'n mynd i'n gadael ni mewn sefyllfa wahanol i'r bobl hynny sy'n gwneud y cymwysterau newydd.
Os yw pobl yn meddwl fod y rhai newydd yn beth mor dda ac yna rydym ni'n dod i mewn a dweud 'rydym wedi cael yr arholiadau hyn a'r canlyniadau hyn' ac maen nhw'n dweud 'ie, ond nid dyna'r system newydd, nid oes gyda ni ddiddordeb yn rheina bellach', dyw hynny ddim yn dda.
Nid ein bai ni yw hynny. Allwn ni ddim helpu hynny. Nid oes gennym bŵer dros hynny. Allan nhw ddim dweud wrthom ni, 'wel, allwch chi ddim cael hwn oherwydd fod gennych chi'r cymhwyster yna'. Y cyfan wnaethom ni oedd cymryd y cymhwyster oedd ar gael.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Mae gan y byrddau arholi gwahanol i gyd gwricwla ychydig yn wahanol ac os yw ysgol wedi arfer dysgu ar gyfer yr un bwrdd arholi flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd yr athrawon yn gyfarwydd ag un cwricwlwm penodol, ond os yw'n mynd yn un bwrdd arholi, mae'n mynd i newid y cwricwlwm ychydig

oherwydd eu bod nhw i gyd yn mynd i gael eu huno ac felly mae hynny'n mynd i gael effaith ar yr athrawon a bydd yn rhaid iddyn nhw newid yr hyn y maen nhw wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd a blynyddoedd.

Os ydynt yn cael eu hail-ddysgu eto, sut maen nhw'n mynd i'n dysgu ni, os ydynt yn ansicr eu hunain o beth yn union maen nhw'n ei ddysgu.

**Cysondeb gyda gweddill y DU**

Y cynsail, y broblem ddaeth â'r newid posibl i fod yw'r ffaith bod yna anghysondebau rhwng safon cymwysterau. Efallai fod Cymwysterau Cymru, fel corff, yn tybio bod Cymru yn ardal anghysbell ac nid dyna'r gwir. Mae cyfran fawr o fyfyrwyr o Gymru yn mynd i brifysgolion yn Lloegr – allwch chi ddim dweud 'mae gennym ni un bwrdd arholi yng Nghymru ac mae'n fanteisiol i fyfyrwyr Cymru' gan ein bod yn rhan o genedl gyfan ac rydym ni'n cystadlu yn erbyn pawb. Yw'r broblem yn dal yno? Nid dim ond yng Nghymru mae cystadlu'n digwydd, mae'n digwydd ar draws y DU gyfan.

**Ystod y pynciau a gynigir**

Mae rhai pynciau llai cyffredin, a gynigir gan wahanhol fyrddau arholi. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd cytuno ar y casgliad o arholiadau a gynigir gan y bwrdd newydd.

**Amserlen**

Dydw i ddim yn hoffi'r ffaith bod Cam 2 heb amserlen bendant. Allwch chi ddim gwneud yr holl bwyntiau hyn gan ddweud 'bydd hyn yn digwydd.'

**Diweithdra**

Bydd swyddi'n cael eu colli pan fydd y byrddau arholi eraill yn peidio â bod yng Nghymru.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Effaith ar ganfyddiad am y TGAU cyfredol**

Ni ddylai gael ei weld, pan fyddant yn cyflwyno'r newid, fod yr hen system yn wael oherwydd y mae'n gweithio, yn amlwg, rydym ni wedi cael ein TGAU, yr un peth â sawl cenhedlaeth o'n blaenau ni. Pan ddaw Cymwysterau Cymru, ni ellir ei ystyried yn welliant sylweddol, ond fel newid i'w wneud yn fwy effeithlon, yn hytrach na newid i wneud y cymwysterau yn fwy gwerthfawr. Mae'n dibynnu ar sut y caiff ei gyflwyno, y ffordd y mae'n rhoi gwybod i'r

cyhoedd am y peth ac nad ydynt yn ei bortreadu fel rhywbeth i ddatrys problem fel nad yw cyflogwyr yn credu ei fod yn well.
Peidiwch â'i alw yn welliant ar yr hen system. Mae'r system newydd yn fwy effeithlon, ydy, ond nid yw'r hen system yn ofnadwy.
Dylent ddweud ei fod yn ei gyflwyno i wneud pethau'n symlach.

**Ansawdd**

Os oes gennych chi un cyfeiriad cyffredin ar gyfer y sefydliad newydd, yna gallwch ddefnyddio elfennau gorau'r hen fyrddau arholi a'r math o wahanol arddulliau a chwestiynau mwy heriol oedd yn gwneud pob un yn well – a'u ffurfio'n un peth. Mae'n fuddiol cael un dull mewn arholiad, sy'n gyffredin i bob arholiad, sy'n defnyddio rhannau gorau pob elfen.

**Cynnwys y cyrsiau newydd**

Mae gan bobl farn wahanol ar yr hyn y maent yn credu sy'n iawn i'w gynnwys mewn arholiad felly dylent gyfuno pob un o'r gwahanol bethau yr ydym wedi eu gwneud yn barod, yn hytrach na chreu rhywbeth hollol newydd a newid pob un peth.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth ohono. Dywedodd pawb yr hoffen nhw gael y rhif ar gerdyn plastig.**

**RhUD**

**Mynediad**

Mae yna'r mater o bwy all gael mynediad at eich Cofnod Dysgu oherwydd dylech wybod os oes gan bobl fynediad iddo. Dyweder fod rhywun yn Llundain yn edrych ar eich CDP, dylech gael gwybod eu bod nhw wedi gwneud hynny.
Gallai fod yn eithaf defnyddiol i gyflogwyr, os yn hytrach na'ch bod chi'n gorfod cynhyrchu tystysgrif i brofi bod gennych y cymwysterau hyn, gallant jyst fynd ar wefan a gwirio.
Gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddiad ystadegol o safbwynt y llywodraeth, i ddadansoddi tueddiadau mewn graddau.

**Beth gaiff ei gynnwys**

Byddai'n rhaid i chi ddiffinio beth mae 'cyflawniad dysgu' yn ei olygu, p'un a ydynt ddim ond yn mynd i wneud y TGAU safonol, Lefel A, neu a ydynt yn mynd i gynnwys cymwysterau eraill y mae pobl yn eu gwneud yn annibynnol o'r ysgol. Mae rhai pobl yn gwneud cyrsiau - fel y Brifysgol Agored, israddedigion a phethau cyn iddynt adael yr ysgol.

**Dibynadwyedd**

Os yw e'n electronig, mae angen iddyn nhw wneud yn siwr nad oes ffordd y gallai gael ei ddileu.

**Symlrwydd**

Bydd yn ei gwneud hi ychydig yn haws i ysgrifennu eich CV – dim ond copïo a gludo fydd angen.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Rwyf wedi defnyddio'r we, safle UCAS ac rwyf hefyd wedi siarad â chynghorydd gyrfaoedd yr ysgol.
Mae cynghorydd gyrfaoedd yr ysgol yn iawn ond nid ydynt yn eich adnabod chi'n bersonol, felly maen nhw jyst yn siarad ar sail yr hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthynt.
Fe wnes i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru i chwilio am leoliad profiad gwaith. Mae'n iawn, yn hawdd i fynd o'i gwmpas ac i ddod o hyd i'r hyn rydych ei angen.

**Hoffterau / Cyngor**

Rwy'n hoffi siarad â rhywun oherwydd y gallant roi eu profiad nhw i chi hefyd. Ar y we, gallwch gael gwybodaeth, ond nid ydych chi'n gwybod pam fod hynny'n dda neu beidio. Dyw e ddim yr un fath â siarad â rhywun sy'n gwybod.



# 7. Ysgol Sylfaenol Brynmawr

Ion 23ain 2014

8 cyfranogwr – 2 benyw, 6 gwryw
Myfyrwyr Blwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU, 15 – 16 oed

## Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

### 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Bydd gan bob cymhwyster yr un gwerth. Bydd gan bawb gyfle teg o fynd i brifysgol neu gael swydd.
Fydd yr hyn ddigwyddodd gyda Saesneg Iaith yn 2012 ddim yn digwydd.

**Symlrwydd**

Bydd yn llai dryslyd i ddisgyblion sy'n cymryd gwahanol arholiadau gyda gwahanol fyrddau. Yn yr ysgol hon, rydym i gyd yn gwneud CBAC ond lawr yn Abertyleri, mae eu hanner nhw'n gwneud CBAC, eu hanner nhw'n gwneud Edexcel ac mae'n ddryslyd wedyn ar gyfer y disgyblion.

**Iaith Gymraeg**

Gall siaradwyr Cymraeg sefyll arholiad yn eu hiaith eu hunain, yn hytrach na gorfod dehongli iaith arall.



## 2. Problemau Posibl

### Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol

Yn enwedig gyda Saesneg, oherwydd mae pobl sy'n ddyslecsig a dyspracsig ac sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio ac os nad oes haen is i'w helpu i gael 'C', yna nid ydynt yn mynd i fod yn gallu gwneud llawer oherwydd bod angen Saesneg arnynt.

### Effaith ar ganfyddiad am y TGAU cyfredol

Efallai na fydd pobl am gydnabod cymwysterau CBAC oherwydd efallai y byddant yn dweud eu bod yn haws na'r rhai newydd.

### Risg

Beth os yw Cymwysterau Cymru'n gwneud cawlach o bethau? – fydd yna ddim bwrdd arall i bobl fynd ato.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

### Ystyriaethau ar gyfer y pontio

Pan fyddant yn ei gyflwyno, mae angen iddynt gofio bod rhai llefydd yn gwneud cyrsiau dros flwyddyn a rhai yn gwneud hynny dros ddwy flynedd. Fel gyda TGCh, mae Blaenau Gwent yn ei wneud dros 1 flwyddyn ond mae ysgolion eraill yn ei wneud dros ddwy flynedd.
Dylai Cymwysterau Cymru gynghori CBAC ar sut fydd eu papurau arholiad newydd er mwyn iddynt ddechrau cael pobl yn barod a symud yn araf tuag at drefn Cymwysterau Cymru.

### Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol

Rwy'n credu y dylent gadw haen uwch a haen is yn yr arholiadau newydd oherwydd bod gan bobl wahanol lefelau o ddysgu academaidd. Felly, ar gyfer pobl nad oes ganddynt lefelau da iawn gyda llythrennedd a hynny, mae'n mynd i fod yn heriol iawn iddynt os mai dim ond un haen fydd.

### Effaith ar ganfyddiad am y TGAU cyfredol

Mae'n rhaid i'r llywodraeth ei gwneud hi'n glir nad yw'n un ni'n llai gwerthfawr na rhai Cymwysterau Cymru, a gwneud yn siŵr nad yw cyflogwyr yn gwahaniaethu yn erbyn ein cymwysterau.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Roedd un disgybl yn ymwybodol ohono.**

Mae Mam wedi dweud wrtha i fod gen i un, ond dyna i gyd rwy'n gwybod.

**Dywedodd pawb yr hoffen nhw gael y rhif ar gerdyn plastig.**

**CDP**

Mae'n gwneud synnwyr.

**Diogelwch**

Os yw'r cyfan yn cael ei storio ar gyfrifiadur, gallai gael ei hacio neu gael firysau neu chwalu. Efallai y bydd rhai pobl eisiau newid eu cymwysterau. Mae rhai pobl eisiau hacio gwefan eu hysgol am ddim rheswm, felly maent yn mynd i fod eisiau hacio hwn.
Mae angen iddynt gael waliau tân eithafol.

**Beth gaiff ei gynnwys**

Pa fath o gymwysterau fyddai'n mynd ar y CDP? Beth am wobrau Dug Caeredin?

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Mae gennym ni swyddog gyrfaoedd. Dwi heb gwrdd â nhw ond byswn i'n teimlo'n gyffyrddus i fynd i'w gweld nhw.

**Nid oedd gan y cyfranogwyr unrhyw brofiad o ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru.**

**Hoffterau / Cyngor**

Byddai'n well gen i ei wneud yn electronig
Mae'n well gen i wyneb i wyneb er mwyn gwneud yn siwr nad oes dim yn cael ei gamddeall. Rydych yn gwybod eu bod nhw wedi eich clywed chi.

## 8. Coleg Sir Benfro

Ion 24ain 2014

14 cyfranogwr – 14 benyw
Myfyrwyr yn astudio ar gyfer Diploma Gofal Plant, 17 – 20 oed

### Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

### 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Os mai dim ond un bwrdd arholi sydd, mae gan bawb gyfle cyfartal wrth fynd i faes addysg neu gael swyddi. Os ydynt wedi cael yr un cymhwyster, ni fydd unrhyw un yn cael mantais dim ond am eu bod nhw wedi sefyll arholiadau bwrdd arholi gwahanol.

**Symlrwydd**

Bydd yn llai dryslyd i gyflogwyr. Yn y pen draw, dim ond un cymhwyster fydd yna. Byddant yn cael yr un cymhwyster felly bydd hi'n dibynnu pwy oedd orau yn y cyfweliad.

**Iaith Gymraeg**

Bydd yn eich galluogi chi i sefyll yr arholiadau'n Gymraeg neu Saesneg, felly eto – cydraddoldeb i siaradwyr Cymraeg.

### 2. Problemau Posibl

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Beth am bobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? Fel fy nghefnder, pan oedd yn yr ysgol, nid wy'n gwybod gyda pha fwrdd yr oedd e, ond gallai sefyll arholiadau oedd yn briodol iddo. Mae ganddo anawsterau dysgu difrifol, felly fe wnaethon nhw lunio arholiadau ar ei gyfer, fel ei fod yn dal i gael rhyw fath o gymhwyster a byddai cyflogwyr yn dal i'w gydnabod. A fydd gwahanol alluoedd pawb yn dal i gael eu hystyried gan Cymwysterau Cymru? All e ddim bod yn 'wel, anghofiwch amdanyn nhw, rydym yn jyst yn mynd i wneud yr un anodd yma - os ydych yn ddeallus bydd yn gweithio.'

Mae rhai cyrff arholi yn darparu offer gwahanol, fel mae rhai yn rhoi cyfrifiadur gyda meddalwedd ar gyfer pobl â dyslecsia, fel fy mrawd bach ac mae byrddau eraill nad ydynt yn caniatáu hynny. Gyda CBAC maen nhw wedi paratoi dogfen blaen iddo, heb wirio sillafu a phethau fel 'na, ond yna mae byrddau eraill, sydd ddim yn gwneud hynny.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Os ydynt yn mynd i newid maes llafur, efallai y bydd athrawon yn ei chael hi'n anodd i addasu i'r maes llafur newydd, fydd yn effeithio ar ddysgu'r plant. A fydd angen hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn? Os yw hyn yn cael ei gyflwyno dros rai blynyddoedd, yna bydd athrawon yn y pen draw yn dysgu gwahanol feysydd llafur ar yr un pryd. Gallai fod yn ddryslyd.

Os ydych yn hyfforddi i fod yn athro yn y brifysgol, bydd yn rhaid iddynt gyflwyno hyn. Os ydynt yn mynd i fod yn ei newid i gyd, yna bydd angen i chi gael gwybod os ydych yn hyfforddi i fod yn athro.

**Effaith ar rieni**

Fydd gan rieni ddim syniad am yr hyn sy'n mynd ymlaen - fel gyda fy nhad a'i gariad, maent yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen hyd yn hyn ac yna gyda'r ddau ieuengaf, mae'r cyfan yn mynd i gael ei newid. Maent yn mynd i fod angen cymorth yn y cartref.

Beth am y rhai nad ydynt yn hoffi newid? Mae llawer o bobl fel yna, maen nhw wedi ei ddysgu ers cymaint o amser, maent wedi arfer ag ef, rydych yn taflu rhywbeth newydd atynt, ac nid ydynt yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen.

**Ystod y pynciau gaiff eu cynnig**

A fydd yna dal yr un fath o amrywiaeth o bynciau? Mae gwahanol fyrddau'n cynnig pethau gwahanol. Efallai eich bod chi'n gwneud eich pynciau gyda CBAC ond efallai y byddwch yn dewis gwneud rhywbeth sydd ychydig yn wahanol gyda bwrdd arall am nad yw CBAC yn ei gynnig.

Beth os yw pwnc yn cael ei ddiddymu gan Cymwysterau Cymru? Os ydynt yn rhoi'r gorau iddo, ni fydd yn bosibl i bobl gymryd y pwnc.

Yn fy ysgol i, ni allem wneud Ffotograffiaeth a roedd myfyrwyr oedd am ei wneud yn gorfod teithio 20 neu 30 munud i ysgol arall i'w wneud. Os nad oedd Cymwysterau Cymru'n ei gynnig, ni fyddent yn gallu ei ddewis o gwbl.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Mae'n mynd i fod yn ddryslyd i gyflogwyr. Efallai y byddant yn ystyried fod pobl o dan anfantais pan nad ydyn nhw - dim ond am fod y cymhwyster wedi newid.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Bydd rhaid iddyn nhw geisio roi prawf ar yr arholiadau newydd oherwydd os ydych yn ei gyflwyno'n syth, a dim ond taflu'r cyfan at ei gilydd, dydych chi ddim yn gwybod ar ba lefel mae'r ysgolion.
Byddai'n rhaid i chi ddewis lefel sy'n addas i'r rhan fwyaf, y gallent weithio tuag ato, ac sy'n gyraeddadwy - ddim yn rhy galed nac yn rhy hawdd. Ond byddai'n rhaid i'r lefel yna aros am flynyddoedd, fel arall, mae'n annheg ar bobl eraill.

**Cysondeb gyda gweddill y DU**

Beth os bydd rhywun yn cyfnewid o Gymru i Loegr neu o Loegr i Gymru? Dydyn nhw ddim yn mynd i wybod beth maen nhw'n ei wneud.

**Materion ailsefyll**

Os byddai'n newid y flwyddyn flaenorol ac yna mae rhywun yn mynd ati i ailsefyll, byddai'n hollol wahanol.



## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Mae angen i'r llywodraeth roi'r gorau i’r dryswch i gyflogwyr a pheidio â gweld y cyfan fel cystadleuaeth. Dylent i gyd fod yn cael eu haddysgu ar y newid - yn union fel ydym ni nawr. Felly, dylent weld nad ydym ni o dan anfantais dim ond oherwydd fod y cymwysterau wedi newid.

Gallent wneud ymgyrch, a’i roi ar y teledu, yn y papurau newydd, a’i roi o amgylch colegau.

Dylent wneud cyrsiau. Pan fyddwch chi'n gweithio i rywun rydych yn cael eich hanfon ar gyrsiau drwy'r amser, fel diogelu ac iechyd a diogelwch oherwydd ei fod yn newid drwy'r amser ac mae'n rhaid i chi gael eich diweddaru. Felly, pam na all hyn fod yn rhywbeth yr ydych yn mynd arno. Ni fyddai'n rhaid iddo fod drwy'r amser, dim ond nes y bydd pawb yn ei ddeall. Byddai'n rhaid iddo fod yn orfodol. Fel gyda diogelu, byddech yn colli eich swydd os nad ydych yn ei wneud.

Hyd yn oed os yw'n gadwyn o bethau, fel dyweder ysgolion yn Sir Benfro, mae yna bob amser rhywun sydd yng ngofal hynny i gyd. Felly, byddent yn gwneud yn siŵr eu bod yn mynd a’u bod yn gwybod eu stwff, yna’n dweud wrth y bobl yn is i lawr pwy sydd angen gwybod ac yn y blaen tan fod pawb yn gwybod.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Dylent gadw'r haen uchaf ac isaf a’r system fodiwlar i helpu pobl sydd ag anghenion dysgu arbennig. Yna, byddent yn gwybod ydyw e’n mynd i weithio mewn gwirionedd ai peidio. Os wnewch chi’r cyfan ar un cynnig, dydych chi ddim yn gwybod ydyw pethau’n mynd i fynd o’u lle.

Felly, mae’n rhaid i Cymwysterau Gymru gefnogi pobl ag anawsterau dysgu.

**Ystyriaethau ar gyfer pontio**

Gyda'r bwrdd arholi newydd, oni fyddai'n haws newid pob pwnc yn araf, un ar y tro, yn hytrach na thaflu popeth i mewn ar unwaith. Bydd yr holl ddysgu’n wahanol. Gallent roi cynnig arni gydag ychydig o bynciau craidd yn gyntaf. Yna byddent yn gwybod a yw wir yn mynd i weithio neu beidio. Os ydych yn ei wneud i gyd ar unwaith, nid ydych yn gwybod a yw'r cyfan yn mynd i fynd o'i le.

**Materion ailsefyll**

Fyddai dim modd iddyn nhw gael graddfa amser, fel eu bod nhw'n cyflwyno'r system newydd hon, ond eu bod nhw'n cadw'r holl arholiadau eraill ar gofnod er mwyn i bobl o fewn dweud 5 i 10 mlynedd sydd angen ailsefyll fynd yn ôl i'r fan lle'r oedden nhw? Dyweder eich bod yn ei wneud am 10 mlynedd, ond os ydych chi am ei wneud ar ôl hynny, bydd yn rhaid i chi gael eich hail-ddysgu a gwneud y bwrdd newydd.

**Ystod y pynciau gaiff eu cynnig**

Os byddant yn culhau i lawr i ddau neu dri ac yn y pendraw un bwrdd, mae angen iddynt barhau i ystyried yr holl bynciau y mae'r byrddau'n eu cynnig ar hyn o bryd.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Mae'n rhaid iddyn nhw gael y lefel yn iawn cyn iddo gael ei gyflwyno ac yna ni ellir ei newid.

**Cyngor arall**

Os yw'n llwyddiannus gyda TGAU a Lefel A, a fydd yn cael ei wneud gyda phethau eraill, fel yr hyn yr ydym yn ei wneud yma? Rydym yn gwneud cymhwyster gofal plant nawr. A fyddant yn ystyried gwneud yr un peth gyda Diplomâu? Rwy'n credu y dylent ei wneud gyda phob un ohonynt. Rwy'n credu y dylai gael ei gyflwyno nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU ac ar draws Ewrop.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, gofynwyd i'r cyfranogwyr am eu gwybodaeth am RhUD - Rhif Unigryw'r Dysgwr. Nid oedd llawer o ymwybyddiaeth ohono. Dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn hoffi cael y rhif ar gerdyn plastig, ynghyd â'u rhif YG.**

Rwy hefyd eisiau ei gael ar gronfa ddata. Byddech yn logio i mewn a chael eich rhif, gyda chwestiynau diogelwch.

Mae angen fod yna ffordd i ni i gyd gael mynediad at ein RhUD ond trwy system ddiogel. Mae angen iddo gael ei hysbysebu'n well.

**CDP**

Mae'n syniad rhagorol.

**Mynediad / Diogelwch**

Fydd cyflogwyr yn gallu cael mynediad ato, rhag ofn eich bod chi wedi colli eich tystysgrifau neu rywbeth?

Os gall cyflogwr fynd i mewn, yna gall hacwyr fynd i mewn. Mae'n rhan o'ch gwybodaeth bersonol, felly pam ddylen nhw fod yn gallu mewngofnodi arno? Dylech fod yn gallu rhoi caniatâd penodol iddynt fynd arno.
Neu gallant ond weld gwybodaeth benodol yno, dim ond yr hyn y mae angen iddynt ei weld. Ar fy CV, nid wyf wedi dweud celwydd, ond mi ges i E mewn ystadegau ac nid wyf wedi ei rhoi arno. Mi wnes i jyst ei adael i ffwrdd oherwydd nad yw'n dda iawn.
Dyweder fod cyflogwr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, beth am os gallwch dicio'r hyn y gallant ei weld. Ni allwch ychwanegu unrhyw beth iddo neu gymryd unrhyw beth i ffwrdd, ond gallwch ddweud 'Rydw i eisiau iddyn nhw weld fy Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth.'

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Problemau'r Gorffennol**

Y broblem gydag ymgynghorwyr gyrfaoedd yw eu bod nhw'n eich arwain chi at yr hyn y maen nhw ei eisiau, sef eich gorfodi chi i aros yn yr ysgol.
Mae'n dibynnu pwy ydyn nhw.
Rwy wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru ond allwn i ddim gwneud synnwyr ohono. Mi wnes i roi'r gorau iddo. Doedd yna ddim pwynt i'w weld iddo.
Hanner yr amser, roedd y wefan yn dileu'r hyn oeddech chi wedi'i ysgrifennu.

**Hoffterau / Cyngor**

Rydw i eisiau geiriau sy'n hawdd i'w darllen. Ar wefannau Prifysgol, maen nhw'n defnyddio llawer o eiriau mawr.
Mae gormod o ddewisiadau ar y we.

Angen ei wneud yn weledol, fel fideo – mi wnes i ddod o hyd i un ar wefan un o'r prifysgolion ac roedd yn llawer gwell.
Gwell esboniad o'r hyn ydych chi'n ei gael allan o'r cwrs mewn gwirionedd - lle y gallai arwain.

# 9. ACT Training – Grŵp 1

Ion 28ain 2014

8 cyfranogwr – 2 benyw, 6 gwryw
Hyfforddeion ar y cyrsiau Hyfforddeiaeth Peirianneg Modurol ac Adeiladu, 16 – 19 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Bydd yn gwneud i bobl gael eu trin yn deg, felly nad oes rhai gwahanol, haws neu beidio oherwydd yn amlwg mae cyflogwyr am gael y gorau.
Pan ddaw hyn i fod, bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu sefyll arholiadau yn eu hiaith eu hunain, felly mae'n ei gwneud ychydig yn well iddyn nhw, fel y gallan nhw ei ddeall yn well yn y bôn.

## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Pan fydd y rhai newydd yn dod i mewn bydd cyflogwyr ac ati'n dewis y bobl sydd â'r cymwysterau newydd yn hytrach na chael pobl â'r hen rai, os yw'n cael ei weld yn gymhwyster well.
Gallai ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i swydd oherwydd y gallai eu cymwysterau gael eu gweld yn is na rhai rhywun arall.

**Materion ailsefyll**

Bydd angen iddyn nhw gadw rhai arholiadau ar gyfer cenhedlaeth benodol o bobl, fel y gallant ailsefyll eu harholiadau, y rhai y maent wedi dysgu ar eu cyfer. Er enghraifft, os wnaethoch chi eich TGAU dair blynedd yn ôl fel fi, mewn ychydig flynyddoedd, fyddwn i ddim yn gallu gwneud yr arholiad yna.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae pobl gydag anawsterau dysgu'n cymryd hirach i ddysgu.  Bydd angen i Cymwysterau Cymru roi rhyw fath o gefnogaeth iddyn nhw.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Ar ba fath o lefel fydd e? Fydd e'n trafod yr un math o stwff?

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Lefel yr arholiadau newydd**

Rwy'n credu y dylen nhw gymryd cwestiynau allan o hen bapurau arholiad ar gyfer pob un ohonynt, fel CBAC, OCR a'u rhoi mewn un papur arholiad.
Mae angen cymysgedd o'r caled a'r hawdd.
Mae angen iddynt roi prawf arno gyda phobl cyn yr arholiad.
Fel grŵp ffocws i wneud papurau ar wahanol lefelau i weld pa gwestiynau ddylai fod yn y papurau uwch neu'r papurau is.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae angen i Cymwysterau Cymru wneud yn siŵr nad yw pobl ag anawsterau dysgu yn cael eu gwthio i mewn i'r arholiadau haen is. Digwyddodd hynny i fi ac rwy'n meddwl y gallwn i fod wedi gwneud yr haen uwch ar gyfer rhai, petai nhw wedi gadael i mi.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth ohono. Dywedodd y mwyafrif yr hoffent gael y rhif ar gerdyn plastig.**

Byddwn i eisiau ei gael e drwy ebost neu'n electroneg, fel bod modd cael yr wybodaeth os ydw i'n colli'r cerdyn.

**CDP**

Byddai'n haws na'i gael ar CV – o ran tystiolaeth.
Byddai'n dda pe gallech gael eich CV ar y wefan, fel bod gennych eich cymwysterau a'ch CV yno.

**Diogelwch**

Mae pobl sy'n hacio i mewn i gyfrifiaduron, yn amlwg maen nhw'n gallu gwneud llanast o ddata fel 'na, a newid y graddau. Mae angen ei ddiogelu.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Dwi wedi edrych mewn llyfrau am golegau.
Mi wnes i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru pan oeddwn yn chwilio am gymorth, am fynd i goleg. Mae'n rhaid i chi glicio ar bob math o fotymau dim ond er mwyn mynd arno, yna mae'n rhaid i chi arwyddo i mewn ac yna dyw eich enw defnyddiwr byth yn gweithio. Mae jyst yn waith caled.

**Hoffterau / Cyngor**

Byddai'n well gen i fynd ar-lein na siarad â rhywun.
Gallent wneud Ap ar eich ffôn. Gallech ddod o hyd i wybodaeth am gyrsiau a gallent gynnig help a chyngor arno hefyd.
O fewn yr Ap, hefyd, gallent gael hysbysebion ar gyfer myfyrwyr sy'n chwilio am waith rhan-amser.
Byddwn i'n defnyddio Gyrfa Cymru eto.
Gyda gwefan Gyrfa Cymru, rwy'n meddwl y dylech chi fod yn gallu cael mynediad iddo heb orfod defnyddio eich enw defnyddiwr a chyfrinair, fel eich bod chi'n gallu chwilio am gymorth a chefnogaeth a gwybodaeth gyffredinol – ei ddefnyddio fel gwestai.

# 10. ACT Training – Grŵp 2

Ion 28ain 2014

8 cyfranogwr – 3 benyw, 6 gwryw
Hyfforddeion ar y cwrs Hyfforddeiaeth Gofal Anifeiliaid, 16 – 19 oed

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Ni fydd cyflogwyr yn gallu dewis pobl dim ond am eu bod yn meddwl bod un bwrdd arholi yn well nag un arall.
Bydd un system yn ei gwneud yn symlach ac yn decach.

## 2. Problemau Posibl

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Efallai y bydd plant ag anghenion arbennig wedi arfer cadw at un bwrdd arholi, ac yna rhaid iddynt newid i un arall, efallai y byddant yn cael trafferth, fel y bobl sydd heb arfer â newid. Gallai eu gwneud nhw’n rhwystredig. Efallai y gallai strwythur yr arholiadau newydd a'r cwestiynau fod yn llawer anoddach i rai pobl eu deall. Maen nhw’n gorfod llunio cwestiynau clir, fel y gall pawb eu deall.

**Effaith ar Ysgolion ac Athrawon**

Gallai achosi problemau ar gyfer athrawon os oes arholiadau newydd. Maen nhw wedi arfer gwneud yr un peth ac bydd yn rhaid iddynt newid eu trefn. Mae angen i Cymwysterau Cymru roi digon o rybudd iddyn nhw ei fod yn mynd i newid. Allan nhw ddim jyst newid y cyfan yn sydyn.

**Strwythur cyrsiau**

Dylent gadw modiwlau. Gallech gael diwrnod gwael pan fyddwch yn sefyll eich arholiad ac rydych wedi gwastraffu’r holl waith yna. Dydw i ddim yn hoffi arholiadau.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Gallai ein TGAU gael eu dibrisio. Er enghraifft, os bydd rhywun yn mynd yno

mewn rhai blynyddoedd gyda'r arholiad newydd, ac rydym yn mynd a gwneud cais am yr un swydd, ac mae gennym ni CBAC, efallai na fyddai gennym yr un cyfle ag sydd gyda nhw.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Dylent gadw'r lefel sylfaen ac uwch am fod gan bobl wahanol alluoedd dysgu.

Dylech fod yn gallu dewis os ydych yn gwneud yr ochr ymarferol neu’r ochr academaidd, ysgrifenedig. Fel mewn Drama, byddai rhywun sy'n ddyslecsig yn cael trafferth i ysgrifennu, fel ysgrifennu sgript neu rywbeth, ond gallent fod yr actor gorau yn y byd. Byddai hynny'n eu llusgo i lawr, yn annheg. Mae angen i Cymwysterau Cymru feddwl am hynny.

Mae angen i Cymwysterau Cymru gadw ati i helpu pobl sydd angen mwy o help gyda darllen ac ati.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Mae'n rhaid iddynt eu wneud yn gyfwerth. Ni yw’r bobl olaf fydd â’r hen arholiadau.

Mae'n rhaid iddynt roi gwybod i bobl eu bod i gyd yr un fath. Rhowch e ar y newyddion.

**Materion Gwleidyddol**

Efallai y bydd pobl yn meddwl bod y llywodraeth yn ceisio’i fonopoleiddio braidd, yn cael gwared ar y byrddau arholi. Dylent wneud pobl yn ymwybodol nad yw achos yr arian, ond ei fod er lles y myfyrwyr. Bydd pobl yn neidio i gasgliad. Mae llawer o bobl yn dweud 'a, mae'r llywodraeth jyst eisiau arian', ond dylent bwysleisio'r ffaith ei fod i wneud ag addysg a lles.

**Ystyriaethau ar gyfer pontio**

Dylent wneud ffug arholiad o hwn. Allwch chi ddim disgwyl i'r athrawon wneud arholiad newydd nad ydynt erioed wedi ei weld, na’r disgyblion, mae angen ei gyflwyno’n araf. Mae angen digon o amser i fyfyrwyr ddod i arfer ag e.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Dylent roi’r pethau gorau o’r holl gyrff at ei gilydd, yn un corff.

**Strwythur**

Dylech chi gael dewis o wneud modiwlau neu arholiadau.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth ohono. Dywedodd y mwyafrif yr hoffent gael y rhif ar gerdyn plastig.**

Rhowch e ar gerdyn gyda'ch rhif YG

**CDP**

Mae'n syniad da.

Efallai nad oes gyda chi fynediad i'r we.

**Dibynadwyedd**

Os yw'r system yn methu, fyddwch chi ddim yn gallu cael mynediad iddo. Gallech golli cyfle am rywbeth sydd ei angen arnoch.

**Diogelwch**

Beth os oes pobl eraill yn gallu cael mynediad ato? Gallent ddefnyddio eich graddau chi.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Mi wnes i ddefnyddio gwefan.
Mi wnes i ffonio'r coleg. Mae'n fwy uniongyrchol, i siarad â rhywun am y peth.
Mi wnes i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru. Pan wnes i ei ddefnyddio gyntaf, roedd yn eithaf dryslyd oherwydd bod bar chwilio ac mae'n dweud i deipio pa fath o swydd rydych ei eisiau a pha fath o sector byddech yn gweithio ynddo, felly mi wnes i roi 'gofal plant' i mewn ac roedd yn dod o dan gwaith gofal nid gofal plant ar y gwymplen. Felly, roedd e ychydig yn ddryslyd.
Rydw i wedi bod i lawr i Ganolfan GC. Dyna sut wnes i gyrraedd fan hyn. Rydych chi'n cael mwy o help yno. Dydw i erioed wedi sylwi ar ACT ar y wefan ond fe wnaethon nhw ddweud wrtha i amdano.

# 11. Ysgol y Strade

Chwe 3ydd 2014

14 cyfranogwr – 1 benyw, 13 gwryw

Myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 yn astudio ar gyfer Lefel A

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Mae'n ymddangos yn wirion bod yr holl gyrff dyfarnu gwahanol hyn i gyd yn delio â'r un cymhwyster, ond na sydd efallai yn union yr un peth yn y diwedd.
Rwy'n credu y dylai sicrhau cysondeb yn y safonau a bod y rheolau sy'n cael eu gosod yn deg.
Dylai wneud yn siwr bod pawb yn cael mynediad i gymwysterau teg.
Bydd yn decach ac yn fwy cyson.

**Symlrwydd**

Mae'n swnio fel syniad iawn. Hynny yw, yn Ysgol y Strade, dim ond astudio ar gyfer cymwysterau CBAC ydym ni, ond mae’n rhaid ei fod yn mynd yn eithaf cymhleth ar draws yr holl ysgolion ledled Cymru.
Dylai olygu llai o ddryswch.
Bydd yn gwneud pethau'n haws i gyflogwyr ac efallai yn haws i athrawon ymdrin â nhw.



**Ansawdd**

Bob blwyddyn, mae pobl yn cael dadl am safonau yn gostwng pan fydd canlyniadau TGAU yn cael eu cyhoeddi. Os oes gwahanol fyrddau a rhai ysgolion yn dewis cymwysterau ar sail pa mor hawdd ydynt, nid yw wir yn helpu materion, nac ydi?

## 2. Problemau Posibl

**Materion gwleidyddol**

Mae cyrff dyfarnu yn arbenigo mewn materion addysgol. Gallai ymyrraeth y llywodraeth gael effaith negyddol ar safonau.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Mae'n swnio fel llawer o ymdrech i ysgolion i addasu i'r system newydd.

**Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**

Dwi ddim yn meddwl ei fod yn deg i'r rhai sydd â TGAU'n barod

**Cysondeb gyda gweddill y DU**

Gallai pobl yn Lloegr anghytuno â nhw.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

**Ystyriaethau ar gyfer pontio**

Rwy'n credu fod angen iddyn nhw lenwi unrhyw fylchau yng ngwybodaeth pobl cyn sefydlu'r corff newydd.

**Arall**

Rwy'n credu y dylai fod yna un bwrdd ar gyfer y DU gyfan

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**Yn gyntaf, holwyd cyfranogwyr am eu gwybodaeth o'r RhUD – Rhif Unigryw'r Dysgwr. Dim ond ychydig o ymwybyddiaeth ohono oedd yna.**

**CDP**

Mae'n gwneud synnwyr bod un cronfa ddata sy'n cynnwys yr holl wybodaeth gywir.
Mae'n well i gyflogwyr os oes un ffynhonnell ar gyfer eich holl gymwysterau dysgu.

**Diogelwch**

Byddwn i'n poeni am rywun yn gallu ei hacio.
A fyddai'n agored i bobl hacio'r system i geisio newid eu graddau? A yw'n ddiogel?
Pwy sy'n mynd i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn a'u bod nhw'n ddiogel?

**Mynediad**

Fyddwn i ddim am i bobl eraill allu gweld fy nghanlyniadau.
Rydym ni angen eglurhad ynghylch pwy sy'n mynd i fod arno a phwy fydd yn gallu cael mynediad iddo.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Dwi heb fod angen gwneud, mewn gwirionedd.
Os oes angen, byddwn i'n gofyn i un o fy ffrindiau, neu os nad ydynt yn gwybod, yn rhoi cynnig ar un o'r athrawon.
Mi wnes i ofyn i un o'r athrawon. Roedd yn iawn – roedden nhw'n gallu rhoi'r wybodaeth oeddwn i eisiau i mi.

**Hoffterau**

Byddwn yn gofyn i athro neu'n mynd ar-lein.
Byddwn yn defnyddio Google ac os na allwn ddod o hyd i'r wybodaeth, efallai y byddwn yn gofyn i un o'r athrawon.
Byddwn yn mynd i lyfrgell yr ysgol (mae Adran Gyrfaoedd yn llyfrgell yr ysgol) neu i'r llyfrgell yn y dref.
Fyddwn i ddim wir yn gwybod ble i fynd.
Byddwn yn siarad â ffrind cydwybodol i gael y wybodaeth.
Efallai y byddwn yn gofyn i un o fy rhieni.

# 12. Ysgol Gynradd Glyncollen

Rhag 2il 2013

6 cyfranogwr – 5 benyw, 1 gwryw
Disgyblion Blwyddyn 6, 10 – 11 oed

**Roedd gan ddisgyblion beth gwybodaeth am y system TGAU a Lefel A gan frodyr neu chwiorydd a pherthnasau:**

Maen nhw'n dechrau ym Mlwyddyn 10 ac yn gorffen ym Mlwyddyn 11. Aeth fy nghefnder i 6ed dosbarth i wneud Lefel 'A'.
Mae'n rhaid i chi wneud rhai pynciau a gallwch ddewis rhai pynciau. Es i ar 'Ddiwrnod Sgiliau' mewn ysgol uwchradd.
Mae'n anodd yr oedran hyn oherwydd nad ydych yn ei ddeall yn llawn ond pan fyddwch chi mewn ysgol uwchradd maen nhw'n ei egluro, fel pa bynciau sydd eu hangen ar gyfer swyddi.
Ie, ond meddyliwch am y peth, dim ond ychydig o flynyddoedd i ffwrdd yw e pan fydd yn rhaid i ni benderfynu pa bynciau rydym ni am eu gwneud.

## Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

### 1. Manteision Posibl

**Tegwch**

Rwy'n credu ei fod yn dda iawn eu bod yn ei wneud oherwydd os oedd dau o bobl, dyweder, ac roedd un wedi sefyll arholiad bwrdd anoddach ac yn cael efallai B a'r llall gyda bwrdd haws ac yn cael gradd A, nhw sy'n mynd i gael y swydd, er y gallai'r un arall fod llawn cystal o bosibl neu hyd yn oed yn well. Dyw hi ddim yn deg.

### 2. Problemau Posibl

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**

Ond os nad ydych mor glyfar, mae'n mynd i'w gwneud hi'n anoddach cael swydd oherwydd mai dim ond un bwrdd arholi fydd. Ni allant ddewis arholiad haws.

Efallai y bydd pobl yn teimlo o dan bwysau os oes un bwrdd yn unig ac efallai na fyddant yn gweithio cystal os na allant ddewis pa fwrdd y maent ei eisiau. Dyweder nad ydych mor glyfar a’ch bod chi am fynd i'r bwrdd haws, os ydynt yn creu dim ond un bwrdd, byddech yn meddwl eich bod yn dwp ac ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw beth amdano. Gallai wneud i bobl deimlo’n isel.

Mae gennych chi rai pobl ddeallus ac eraill yn llai deallus ac os oes gennych chi un bwrdd, efallai y bydd pobl llai deallus yn ei chael hi’n rhy anodd iddyn nhw a'r bobl deallus yn ei chael hi’n rhy hawdd.

**Materion gwleidyddol**

Rwy'n credu mai’r llywodraeth sy’n bod yn ddiog oherwydd yr hyn maen nhw'n ei ddweud yw 'Alla i ddim â thrafferthu a dylanwadu ar yr holl fyrddau hyn, pa un sy'n werth mwy?', felly maen nhw jyst yn dweud 'iawn, un bwrdd'. Mae'n ymddangos fel syniad da ar eu cyfer nhw, ond mae’n gwneud bywyd yn anoddach i bawb arall.

## 3. Cyngor i Cymwysterau Cymru

Efallai y dylai fod yna ddau fwrdd oherwydd rwy’n hoffi'r syniad y gallwch ddewis - nid dewis rhwng llwythi ond gallent leihau’r dewis i tua dau neu dri. Yna gallech dal ddewis ond mae'n hawdd i’w drefnu am mai dim ond un neu ddau ydyw.

# 13. Ysgol Stanwell

Ion 17eg 2014

7 cyfranogwr – 3 benyw, 4 gwryw
Disgyblion Blwyddyn 9, 14 – 15 oed

**Roedd ffocws pryderon disgyblion ar y materion di-oed, ymarferol o sut y bydd y newid yn gweithio a'r problemau ar eu cyfer nhw a allai godi yn ystod y pontio.**

Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

## 1. Problemau

### Effaith ar ddisgyblion - straen

Gallai hyn swnio ychydig yn anghwrtais i'r hyn y maent yn ceisio ei wneud, ond maen nhw'n rhyw fath o ganolbwyntio ar yr ochr fusnes a sut y bydd y byrddau arholi yn ffitio ond yn y pen draw, nid yw'n wir ar eu cyfer nhw, maent eisoes wedi cael eu cymwysterau, mae ar gyfer pobl sy'n cymryd arholiadau nawr, sydd un ai ar y diwedd, hanner ffordd drwyddo neu newydd ddechrau ac sydd angen gwybod yn union beth sy'n mynd i ddigwydd, yn enwedig os nad yw wedi'i benderfynu'n swyddogol eto. Rydych yn poeni am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd pan fyddwch yn sefyll eich arholiadau, beth fyddwch yn eu sefyll a ph'un a fyddan nhw'n wahanol. Felly, yn hytrach na meddwl am yr ochr fusnes, mae angen iddynt feddwl am yr holl blant. Rydych chi wedi dod a siarad â'r saith ohonom ni, ond yna mae gweddill ein blwyddyn gyfan ni ac ni fydd ganddyn nhw unrhyw syniad ac efallai y byddant yn poeni ynghylch a fydd yr opsiynau y maent wedi eu dewis yn wahanol i'r hyn yr oeddent wedi credu'r oedden nhw. Mae angen iddo fod yn glir. Medi 2015 – mae'r dyddiad hwnnw, i ni yn golygu'n agos at sefyll eich Mathemateg ac mae peidio gwybod pa fwrdd byddwn ni'n ei sefyll yn peri pryder.

### Deunyddiau

Mae braidd yn annheg ar gyfer y bobl gyntaf a fydd yn gorfod dysgu ar gyfer yr arholiadau newydd. Fel bod gwybodaeth y gorffennol - fel y gwnaeth eich

rhieni chi, neu dy frodyr neu chwiorydd ei wneud, ni allant eich helpu. Ni fyddwch yn gwybod beth sydd o'ch blaen. Ni fydd unrhyw bapurau gorffennol i edrych arnyn nhw.
A fyddai'r llyfrau, llyfrau adolygu sydd ar gyfer CBAC yn newid pan ddaw Cymwysterau Cymru i mewn? Mae gen i lwyth ar ôl fy mrawd, felly fydd Mam a Dad yn mynd i orfod prynu mwy?

**Dilyniant**

A fydd cymwysterau Cymru'n creu cyrsiau hollol newydd? Er enghraifft, gallai Ffiseg CBAC fod yn gwbl wahanol i Ffiseg OCR, felly ydyn nhw'n mynd i gymryd sampl o'r ddau?
Efallai y byddwn yn gwneud Lefel 'A' Cymwysterau Cymru ond rydym yn gwneud TGAU CBAC nawr, ydy hyn yn golygu y bydd yr hyn ydym ni wedi'i ddysgu yn ddiwerth i ni? Ni allant eu gwneud yn hollol wahanol.

**Opsiynau**

Faint o reolaeth fydd gan Cymwysterau Cymru dros pa opsiynau y gallwch eu cymryd a phethau fel a yw'r Gymraeg yn bwnc gorfodol ai peidio? Rwy'n credu y dylent benderfynu bod rhaid i bawb neu neb ei wneud oherwydd ei fod yn braidd yn annheg os bydd rhai ysgolion yn ei wneud ac eraill ddim yn ei wneud.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Mae'n bosib fod llawer o'n hathrawon ni wedi arfer dysgu ar gyfer ein TGAU arferol ac efallai y bydd rhaid i'w dysgu nhw newid ar gyfer profion newydd Cymwysterau Cymru.

## 2. Cyngor i Cymwysterau Cymru

Rwy'n credu y dylent gael ystadegau i ganfod pa fyrddau arholi mae ysgolion yn eu defnyddio ac os yw'n CBAC, dylent gymryd mwy o elfennau wrtho ar gyfer yr arholiadau newydd.
Beth am ddefnyddio'r holl rannau defnyddiol o'r holl fyrddau arholi? Felly, dyweder ar gyfer Ffiseg, byddwch yn mynd i weithleoedd, pobl sydd wedi bod trwy'r cyfan mewn swyddi ym maes ffiseg a gofyn beth maen nhw'n ei ddefnyddio. Felly, byddwch yn dechrau'n gynnar ac rydych yn dysgu plant am yr hyn sy'n ddefnyddiol yn y byd gwaith modern.

Byddwn yn dweud mai’r unig ffordd deg i wneud hyn yw dechrau o’r dechrau’n deg, oherwydd hyd yn oed pe bai mwy o ysgolion yn defnyddio CBAC, efallai y byddai pobl sy'n defnyddio OCR neu fyrddau eraill dan anfantais.
Byddwn i eisiau iddyn nhw gadw'r un math o destunau yn y pynciau, nid eu newid yn sydyn oherwydd ni fyddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

# 5. Ymatebion i gwestiynau Cymwysterau Cymru, wedi'u grwpio yn ôl thema

Yn yr adran hon rydym wedi casglu sampl o ddyfyniadau gair am air yn ymateb i'r cwestiynau ar Cymwysterau Gymru o'r holl ddigwyddiadau. Maent wedi’u grwpio o dan y penawdau thema a nodwyd yn yr adran flaenorol, gan nodi nifer y digwyddiadau lle codwyd y themâu hyn a chan eu cyflwyno yn nhrefn amlder.



| Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru? | |
|---|---|
| **Manteision Posibl** | **Nifer y digwyddiadau /13** |
| **Tegwch**<br><br>Os oes gennych chi un corff yn unig ac mae pawb yn gwneud yr un arholiadau, yna mae'n decach i bawb, ond nid ar gyfer y bobl sydd eisoes wedi sefyll eu harholiadau.<br><br>Os yw pawb yn sefyll yr un arholiad, yna mae pawb yn cael cyfle cyfartal. All neb gwyno fod rhai arholiadau'n anoddach na'i gilydd.<br><br>Pan fyddan nhw'n cynnig am swydd yn y dyfodol, fydd pobl ddim yn cael eu barnu ar sail y bwrdd wnaeth ddyfarnu eu cymhwyster.<br><br>Mae'n system fwy cyfartal, os yw pawb yn cymryd yr un arholiad, ac nid oes unrhyw fath o wahaniaeth yn mynd i fod.<br><br>Ni allant ddweud bod un cymhwyster yn well nag un arall pan fyddwch yn gwneud cais am swydd. Ni allant wrthod un person achos cymhwyster am ei fod yn fwrdd gwahanol.<br><br>Bydd yn golygu bod pawb yn gyfartal. Os ydych yn gwneud yn well mewn arholiad na rhywun arall, yna rydych yn gwybod eich bod yn ei haeddu. Mae wir yn dangos i rywun pa mor galed y maen nhw wedi gweithio.<br>Dylai roi gwell siawns i chi o gael lle mewn prifysgol, os yw'r holl fyrddau arholi yn gyfartal oherwydd bydd eich cymhwyster yn cyfrif am yr hyn ydyw.<br><br>Fydd yr hyn ddigwyddodd gyda Saesneg Iaith yn 2012 ddim yn digwydd.<br><br>Os mai dim ond un bwrdd arholi sydd yna, mae gan bawb gyfle cyfartal wrth fynd i faes addysg neu gael swyddi. Os ydynt wedi cael yr un cymhwyster, ni fydd gan unrhyw un fantais ddim ond achos eu bod nhw wedi gwneud bwrdd arholi gwahanol. | **10** |

| | |
|---|---|
| Bydd yn gwneud i bobl gael eu trin yn deg, fel nad oes ur holl rai gwahanol ar gyfer haws neu fel arall oherwydd yn amlwg mae cyflogwyr am gael y gorau.<br>Rwy'n credu ei fod yn dda iawn eu bod yn gwneud hynny oherwydd os dyweder, roedd dau o bobl ac un wedi gwneud bwrdd caletach ac yn cael efallai B a'r llall wedi gwneud bwrdd haws ac wedi cael gradd A, maen nhw'n mynd i gael y swydd, er y gallai'r un arall fod yr un mor dda neu'n bosibl hyd yn oed yn well. Dyw hynny ddim yn deg. | |
| **Symlrwydd** | **7** |
| Does dim dryswch. Rwy newydd lenwi fy ffurflen UCAS ac roedd rhaid i mi ffonio tua pedwar gwahanol bwrdd arholi i ddarganfod pa arholiadau wnes i gyda nhw, os wyf yn gwneud y cyfan gyda Cymwysterau Cymru, ni fyddai'n rhaid i mi wneud hynny. Maent i gyd â theitl ychydig yn wahanol - roedd yna Astudiaethau Cyfathrebu Busnes a Systemau Cyfathrebu Busnes.<br>Rwy'n credu y bydd hi'n haws i golegau gofrestru myfyrwyr oherwydd bydd gan bawb dim ond un math o gymhwyster.<br>Os oes problem gydag arholiad, bydd pawb yn cael yr un broblem a bydd yn llawer cyflymach i unioni pethau.<br><br>Mae'n ei gwneud yn symlach. Mae llai o ddryswch rhwng pa un i'w ddewis ac a ydych chi'n gwneud yr un cywir.<br><br>Bydd llai o bwysau ar ysgolion i ddewis pa bwrdd sydd fwyaf buddiol i'w disgyblion oherwydd bydd dim ond un dewis.<br><br>Gan y bydd pob arholiad wedi'i ysgrifennu gan yr un bwrdd arholi, ni fydd yna unrhyw wahaniaeth yn arddull arholiadau. Er enghraifft, rydym bob amser yn gorfod ysgrifennu QWCs (Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig) - ond gyda rhai byrddau arholi nid ydych yn ei wneud a gyda eraill mae'n rhaid i chi ei wneud. Felly, bydd y cyfan mewn arddull arholiad tebyg ac yn haws i bobl ei gofio.<br>Bydd yn llai dryslyd ar gyfer disgyblion sy'n cymryd gwahanol arholiadau gyda gwahanol fyrddau. Yn yr ysgol hon, rydym i gyd yn gwneud CBAC ond i lawr yn Abertyleri, mae ei hanner nhw'n gwneud CBAC, a'i hanner nhw'n gwneud Edexcel ac mae'n ddryslyd wedyn ar | |

| | |
|---|---|
| gyfer y disgyblion.<br><br>Bydd yn llai dryslyd i gyflogwyr. Yn y pen draw, dim ond un cymhwyster fydd yna. Byddant yn cael yr un cymhwyster, felly mae'n dod i lawr i bwy oedd orau yn y cyfweliad. | |
| **Iaith Gymraeg**<br><br>Os yw'n cyrraedd eu gweledigaeth, yna dylai wella addysg i bob myfyriwr ac efallai gallai annog yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.<br>Gall siaradwyr Cymraeg sefyll arholiad yn eu hiaith eu hunain, yn hytrach na gorfod dehongli iaith arall.<br>Bydd yn eich galluogi i wneud yr arholiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, felly unwaith eto - cydraddoldeb ar gyfer siaradwyr Cymraeg.<br>Pan gaiff hyn ei gyflwyno, bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu gwneud arholiadau yn eu hiaith eu hunain, felly mae'n ei gwneud ychydig yn well iddyn nhw, fel y gallant ei ddeall yn well, yn y bôn. | **4** |
| **Hyder**<br><br>Bydd yn rhoi hwb i hyder yn y system addysg, fel na fydd yna unrhyw amheuaeth ynghylch â rhai cymwysterau yn cyfateb i rai eraill ai peidio. Bydd hefyd yn rhoi hwb i hyder yr ysgolion, disgyblion, prifysgolion, y wlad i gyd - hyder mewn Cymru fel gwlad.<br><br>Bydd disgyblion yn fwy hyderus eu bod yn cael eu profi'n iawn oherwydd os ydyw nhw'n defnyddio byrddau arholi gwahanol mewn gwahanol ysgolion, efallai y byddant yn poeni nad ydynt yn gwneud y gorau. Felly, gyda arholiadau Cymwysterau Cymru, byddant yn gwybod yn bendant y byddant yn sefyll prawf teg.<br><br>Gan y bydd Cymwysterau Cymru'n cael ei redeg gan y llywodraeth, byddant yn gweithredu er lles gorau'r defnyddiwr ac ni fyddant, fel yr holl gwmnïau hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, ni fydd unrhyw gymhelliant ariannol. Ni fyddant am wneud elw. Mae'n ymddangos bron braidd yn llygredig i adael i fusnesau gystadlu am y pethau hyn sy'n effeithio ar ddyfodol pobl. | **2** |

| | |
|---|---|
| **Ansawdd**<br><br>Mae'n debyg o ran arholwyr blaenorol neu awduron arholiad ar gyfer y byrddau arholi, y gallech ddewis y gorau ar gyfer Cymwysterau Cymru, a fydd yn ei wneud yn fwrdd mwy effeithiol.<br>Bob blwyddyn, mae pobl yn cael dadl am safonau yn gostwng pan fydd canlyniadau TGAU yn cael eu cyhoeddi. Os oes gwahanol fyrddau a rhai ysgolion yn dewis cymwysterau ar sail pa mor hawdd ydynt, nid yw wir yn helpu materion, nac ydi? | **2** |
| **Hygludedd**<br><br>Bydd yn haws i fyfyrwyr symud i ysgol wahanol oherwydd bydd dim ond un cymhwyster. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn gwneud CBAC ond os oes angen i chi symud i ddinas wahanol am ryw reswm, byddai'n haws. Ar hyn o bryd, mae rhai ysgolion yn gwneud AQA, ysgolion eraill yn gwneud CBAC.<br>Rwy'n cytuno. Fe wnes i symud ac fe wnes i weld mod i'n ail-wneud pethau roedden nhw wedi'u gwneud yn barod ac maen nhw wedi gwneud pethau nad ydych chi wedi'u gwneud, felly mae'n bosibl i chi golli darn mawr o'r maes llafur.<br>Gallent fod yn dysgu maes llafur hollol wahanol. Felly gallech fod yn gwneud Llenyddiaeth Saesneg ac maen nhw'n astudio testun Shakespeare, ond nid ydych chi wedi'i astudio. Ac mae ganddyn nhw feini prawf marcio gwahanol ar gyfer gwahanol fyrddau. | **1** |
| **Materion Gwleidyddol**<br><br>Mae llai o fewnbwn gan y llywodraeth. Gallai hynny fod yn dda oherwydd os nad yw'r llywodraeth yn hoffi rhywbeth da mae Cymwysterau Cymru'n ei wneud, fydden nhw'n gallu gwneud dim amdano, ond gallai hefyd fod yn bwynt drwg oherwydd os nad oes gan y llywodraeth fawr o reolaeth, weithiau gall pethau fynd yn braidd o draed moch ac ni fyddent yn gallu gwneud unrhyw beth i atal hynny. | **1** |

| | |
|---|---|
| **Arall**<br>Mae'n atal addysg rhag cael ei redeg yn fwy fel busnes. Os oes llawer o wahanol fyrddau'n cystadlu, yna eu prif nod yw gwneud arian. | **1** |
| **Problemau Posibl** | |
| **Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol**<br>O ran plant nawr, fydd yn cael eu dal yn y cyfnod pontio, os yw'r canlyniad yn negyddol, sut y bydd y moch cwta neu'r genhedlaeth nesaf yn ymdopi gyda'u cymwysterau dosbarth is?<br>Bydd yn seicolegol ar gyfer cyflogwyr. Byddant yn edrych ar ein cymwysterau a meddwl nad ydynt cystal â'r rhai newydd. Byddant yn edrych ar y dyddiadau, yn byddant?<br>Nid wyf yn credu bod yna lawer iawn o ystyriaeth ar gyfer y bobl sydd eisoes wedi sefyll cymwysterau. Mae rhai wedi talu i'w sefyll nhw, fel y gwnes i.<br>Efallai y bydd rhai pobl yn cael eu gorfodi i ail-sefyll eu harholiadau i geisio cyrraedd y lefel y maent yn gofyn amdano.<br>Efallai eu bod nhw wedi gwastraffu hyn a hyn o flynyddoedd yn yr ysgol.<br>Beth os yw'n cael ei weld fel safon uchel iawn a bod pob cyflogwr yn cytuno mai Cymwysterau Cymru yw safon aur arholiadau, beth sy'n digwydd i'r bobl hynny wnaeth sefyll CBAC, Edexcel, beth sy'n digwydd i ni? Beth os ydym yn mynd i gyfweliad am swydd ac mae rhywun wnaeth Astudiaethau Busnes Cymwysterau Cymru, er enghraifft, a rhywun wnaeth wneud Astudiaethau Busnes CBAC, a ydynt yn mynd i ystyried yr un Cymwysterau Cymru yn well? Felly, byddwch yn dal i gael y broblem o fyrddau arholi'n cystadlu, ond dim ond yn cystadlu â'r gorffennol.<br>**Materion Gwleidyddol**<br>Erbyn i Cymwysterau Cymru ddod i rym, efallai y bydd rhywun arall wedi'i ethol sy'n anghytuno gyda'r system newydd, felly mae'n bosibl na chaiff ei gyflwyno. | **11** |

Mae pethau bob amser yn dod i rym sy'n newid, felly rydych chi hanner ffordd drwy gymhwyster ac mae’r diwedd yn y golwg ac yna mae rhywun o dop yr ysgol yn dweud 'O, rydyn ni’n mynd i newid hwnna nawr', a rydych chi’n gweithio am dair blynedd arall i gael y cymhwyster.

Beth os yw cyflogwr ddim ond eisiau Edexcel ac nid oes gen i ddewis, dim ond Cymwysterau Cymru alla i ei wneud, yna efallai na fydd modd i mi gael fy swydd ddelfrydol?

Pan fyddant yn cyflwyno’r rhai newydd, efallai na fydd ein cymwysterau ni’n cael eu gweld cystal â'r un newydd, felly efallai y byddwn yn cael ein hystyried yn weithwyr dosbarth is – ddim mor gymwys â’r rhai newydd sy’n dod i mewn.  Ond erbyn hynny, efallai y bydd gyda ni fwy o brofiad, felly dylai, gobeithio, lefelu allan mewn ychydig o flynyddoedd.

Fel rhywun sydd eisoes wedi sefyll TGAU a fydd wedi gorffen fy Lefel A erbyn y bydd hyn yn effeithio ar bobl, fy mhryder cyntaf yw bod cael y system newydd yn awgrymu bod yr hen un yn annigonol, fel bod popeth mae pobl wedi'i wneud eisoes yn mynd i gael ei danseilio braidd gan yr hyn sy'n dod i mewn yn y dyfodol. Mae hynny'n mynd i’n gadael ni mewn sefyllfa wahanol i'r bobl hynny sy'n gwneud y cymwysterau newydd.

Os yw pobl yn meddwl fod y rhai newydd yn beth mor dda ac yna rydym ni’n dod i mewn a dweud 'rydym wedi cael yr arholiadau hyn a'r canlyniadau hyn' ac maen nhw'n dweud 'ie, ond nid dyna'r system newydd, nid oes gyda ni ddiddordeb yn rheina bellach', dyw hynny ddim yn dda.
Nid ein bai ni yw hynny. Allwn ni ddim helpu hynny. Nid oes gennym bŵer dros hynny. Allan nhw ddim dweud wrthom ni, ‘wel, allwch chi ddim cael hwn oherwydd fod gennych chi’r cymhwyster yna'. Y cyfan wnaethom ni oedd cymryd y cymhwyster oedd ar gael.

Mae'n rhaid i’r llywodraeth ei gwneud hi’n glir nad yw’n un ni’n llai gwerthfawr na rhai Cymwysterau Cymru, a gwneud yn siŵr nad yw cyflogwyr yn gwahaniaethu yn erbyn ein cymwysterau.

Gallai greu mwy o gystadleuaeth i ni. Rydym yn mynd i orfod gweithio

| | |
|---|---|
| hyd yn oed yn fwy caled mewn cyfweliadau.<br>Mae'r rheolwr neu bwy bynnag sy'n mynd i'ch cyfweld chi, angen gwybod bod pawb yr un fath.<br><br>Pan fydd y rhai newydd yn dod i mewn bydd cyflogwyr ac ati'n dewis y bobl sydd â'r cymwysterau newydd yn hytrach na chael pobl â'r hen rai, os yw'n cael ei weld yn gymhwyster well. | |
| **Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**<br><br>Gallai anfanteisio rhai myfyrwyr oherwydd bod rhai ysgolion yn defnyddio byrddau arholi sy'n addas ar gyfer eu myfyrwyr nhw, fel ysgolion arbenigol gyda phobl ag anawsterau dysgu, maent yn dewis byrddau arholi sy'n gweddu i'w myfyrwyr.<br><br>Os mai dim ond un bwrdd arholi sydd yna, ni fydd yr ysgol yn gallu dewis bwrdd arholi sy'n addas i bobl sy'n cael gwaith yn anodd, er enghraifft, ysgrifennu. Gallai fynd yn erbyn pobl sydd ag anghenion arbennig.<br><br>Yn enwedig gyda Saesneg, oherwydd mae pobl sy'n ddyslecsig a dyspracsig ac sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio ac os nad oes haen is i'w helpu i gael 'C', yna nid ydynt yn mynd i fod yn gallu gwneud llawer oherwydd bod angen Saesneg arnynt.<br><br>Beth am bobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? Fel fy nghefnder, pan oedd yn yr ysgol, nid wy'n gwybod gyda pha fwrdd yr oedd e, ond gallai sefyll arholiadau oedd yn briodol iddo. Mae ganddo anawsterau dysgu difrifol, felly fe wnaethon nhw lunio arholiadau ar ei gyfer, fel ei fod yn dal i gael rhyw fath o gymhwyster a byddai cyflogwyr yn dal i'w gydnabod. A fydd gwahanol alluoedd pawb yn dal i gael eu hystyried gan Cymwysterau Cymru? All e ddim bod yn 'wel, anghofiwch amdanyn nhw, rydym yn jyst yn mynd i wneud yr un anodd yma - os ydych yn ddeallus bydd yn gweithio.'<br><br>Mae rhai cyrff arholi yn darparu offer gwahanol, fel mae rhai yn rhoi cyfrifiadur gyda meddalwedd ar gyfer pobl â dyslecsia, fel fy mrawd bach ac mae byrddau eraill nad ydynt yn caniatáu hynny. Gyda CBAC maen nhw wedi paratoi dogfen blaen iddo, heb wirio sillafu a phethau fel 'na, ond yna mae byrddau eraill, sydd ddim yn gwneud hynny. | **7** |

| | |
|---|---|
| Mae pobl gydag anawsterau dysgu'n cymryd hirach i ddysgu. Bydd angen i Cymwysterau Cymru roi rhyw fath o gefnogaeth iddyn nhw.<br><br>Efallai y bydd plant ag anghenion arbennig wedi arfer cadw at un bwrdd arholi, ac yna rhaid iddynt newid i un arall, efallai y byddant yn cael trafferth, fel y bobl sydd heb arfer â newid. Gallai eu gwneud nhw'n rhwystredig.<br>Efallai y gallai strwythur yr arholiadau newydd a'r cwestiynau fod yn llawer anoddach i rai pobl eu deall. Maen nhw'n gorfod llunio cwestiynau clir, fel y gall pawb eu deall.<br><br>Ond os nad ydych mor glyfar, mae'n mynd i'w gwneud hi'n anoddach cael swydd oherwydd mai dim ond un bwrdd arholi fydd. Ni allant ddewis arholiad haws.<br><br>Efallai y bydd pobl yn teimlo o dan bwysau os oes un bwrdd yn unig ac efallai na fyddant yn gweithio cystal os na allant ddewis pa fwrdd y maent ei eisiau. Dyweder nad ydych mor glyfar a'ch bod chi am fynd i'r bwrdd haws, os ydynt yn creu dim ond un bwrdd, byddech yn meddwl eich bod yn dwp ac ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw beth amdano. Gallai wneud i bobl deimlo'n isel.<br><br>Mae gennych chi rai pobl ddeallus ac eraill yn llai deallus ac os oes gennych chi un bwrdd, efallai y bydd pobl llai deallus yn ei chael hi'n rhy anodd iddyn nhw a'r bobl deallus yn ei chael hi'n rhy hawdd. | |
| **Effaith ar ysgolion ac athrawon**<br><br>Gallai fod yn ddryslyd i'r athrawon, gyda'r holl wahanol gyfnodau - y trawsnewid. Un funud, gallent fod yn dysgu CBAC a'r funud nesaf gallent fod yn dysgu Cymwysterau Cymru.<br>Mae'n llwyth gwaith ychwanegol i'r athrawon. Byddai'n rhaid iddynt wneud cynllun gwaith cwbl newydd. Mae rhai ohonynt wedi bod yn gwneud yr un peth am flynyddoedd.<br><br>Bydd yn effeithio ar ddysgu o fewn yr ysgol. Yn amlwg, gyda Hanes rwy'n gwybod bod strwythur penodol ar gyfer pob cwestiwn. A fyddai strwythur y cwestiynau a sut mae'n rhaid i chi ateb newid, gan ei fod yn wahanol ar gyfer pob bwrdd arholi? Felly, bydd yn effeithio ar y ffordd y mae pethau'n cael eu dysgu. | **7** |

Rwy’n meddwl bod rhai athrawon yn ddisymud yn y ffordd y maen nhw’n dysgu pethau, dim ond yn gwneud yr un peth ac rwy'n credu y bydd hyn yn eu taflu a fyddan nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud. Os oes rhaid i chi ddweud wrth athro i ddysgu TGAU cwbl newydd, maen nhw wedyn yn gorfod ei ddysgu eu hunain a sut i’w ddysgu i bobl. Ni all pawb ymdopi gyda'r math yna o bwysau.

Mae gan y byrddau arholi gwahanol i gyd gwricwla ychydig yn wahanol ac os yw ysgol wedi arfer dysgu ar gyfer yr un bwrdd arholi flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd yr athrawon yn gyfarwydd ag un cwricwlwm penodol, ond os yw’n mynd yn un bwrdd arholi, mae'n mynd i newid y cwricwlwm ychydig oherwydd eu bod nhw i gyd yn mynd i gael eu huno ac felly mae hynny'n mynd i gael effaith ar yr athrawon a bydd yn rhaid iddyn nhw newid yr hyn y maen nhw wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd a blynyddoedd.

Os ydynt yn cael eu hail-ddysgu eto, sut maen nhw’n mynd i’n dysgu ni, os ydynt yn ansicr eu hunain o beth yn union maen nhw'n ei ddysgu.

Os ydynt yn mynd i newid maes llafur, efallai y bydd athrawon yn ei chael hi'n anodd i addasu i'r maes llafur newydd, fydd yn effeithio ar ddysgu’r plant. A fydd angen hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn?
Os ydych yn hyfforddi i fod yn athro yn y brifysgol, bydd yn rhaid iddynt gyflwyno hyn. Os ydynt yn mynd i fod yn ei newid i gyd, yna bydd angen i chi gael gwybod os ydych yn hyfforddi i fod yn athro.

Gallai achosi problemau ar gyfer athrawon os oes arholiadau newydd. Maen nhw wedi arfer gwneud yr un peth ac bydd yn rhaid iddynt newid eu trefn. Mae angen i Cymwysterau Cymru roi digon o rybudd iddyn nhw ei fod yn mynd i newid. Allan nhw ddim jyst newid y cyfan yn sydyn.

### Cysondeb gyda gweddill y DU — 5

Beth am geisiadau prifysgol traws-gwlad - sut y bydd pobl yng Nghymru yn dod ymlaen pan maen nhw’n cynnig am le mewn

| | |
|---|---|
| gwahanol brifysgolion?<br><br>Mae’r un peth yn wir y ffordd arall rownd hefyd. Mi wnes i symud o Loegr i Gymru ac roedd newid enfawr yn y meysydd llafur.<br><br>Efallai y gallai helpu colegau yng Nghymru, ond beth os wyf am i gymryd fy nghymwysterau Cymraeg a symud i Loegr? A fyddai hynny’n anfantais i mi, gan y byddai’r bwrdd yn anhysbys, lle pe bai, dyweder dim ond CBAC ar gael, yna mae pawb yn gwybod pwy yw CBAC, tra bod Cymwysterau Cymru yn newydd i'r maes.<br>Beth os, am ryw reswm, rhaid i mi symud i Loegr? Dweud fy mod i ym mlwyddyn 10, beth sy'n mynd i ddigwydd am fod ganddyn nhw’r holl Gyrff Dyfarnu yna a dim ond Cymwysterau Cymru sydd gyda ni? A yw'r maes llafur yn mynd i fod yr un fath â'r byrddau eraill?<br><br>Y cynsail, y broblem ddaeth â’r newid posibl i fod yw'r ffaith bod yna anghysondebau rhwng safon cymwysterau. Efallai fod Cymwysterau Cymru, fel corff, yn tybio bod Cymru yn ardal anghysbell ac nid dyna’r gwir. Mae cyfran fawr o fyfyrwyr o Gymru yn mynd i brifysgolion yn Lloegr – allwch chi ddim dweud 'mae gennym ni un bwrdd arholi yng Nghymru ac mae’n fanteisiol i fyfyrwyr Cymru' gan ein bod yn rhan o genedl gyfan ac rydym ni’n cystadlu yn erbyn pawb. Yw'r broblem yn dal yno? Nid dim ond yng Nghymru mae cystadlu’n digwydd, mae’n digwydd ar draws y DU gyfan.<br><br>Beth os bydd rhywun yn cyfnewid o Gymru i Loegr neu o Loegr i Gymru? Dydyn nhw ddim yn mynd i wybod beth maen nhw'n ei wneud.<br><br>Gallai pobl yn Lloegr anghytuno â nhw. | |
| **Lefel yr arholiadau newydd** | **4** |
| A fydd cymwysterau Cymwysterau Cymru yn cael eu barnu fel naill ai’n fwy gwerthfawr neu’n llai gwerthfawr gan gyflogwyr yn y dyfodol? Gallai eu gwerth ostwng, fel fod A nawr yn gyfwerth ag C mewn ychydig flynyddoedd, gan ddibynnu ar pa mor anodd yw'r cymhwyster newydd.<br><br>Os yw pawb yn meddwl bod arholiadau yn mynd yn haws, a fydden nhw’n fwriadol yn gwneud yr arholiadau newydd yn galetach, i brofi | |

| | |
|---|---|
| pwynt nad ydyn nhw'n mynd yn haws? Fyddan nhw'n dewis CBAC a dweud 'mae eu harholiadau nhw'n iawn' fel eu bod nhw'n seilio'r arholiadau newydd ar y lefel honno?<br><br>Ar ba fath o lefel fydd e?  Fydd e'n trafod yr un math o stwff?<br><br>Bydd rhaid iddyn nhw geisio roi prawf ar yr arholiadau newydd oherwydd os ydych yn ei gyflwyno'n syth, a dim ond taflu'r cyfan at ei gilydd, dydych chi ddim yn gwybod ar ba lefel mae'r ysgolion. Byddai'n rhaid i chi ddewis lefel sy'n addas i'r rhan fwyaf, y gallent weithio tuag ato, ac sy'n gyraeddadwy - ddim yn rhy galed nac yn rhy hawdd. Ond byddai'n rhaid i'r lefel yna aros am flynyddoedd, fel arall, mae'n annheg ar bobl eraill. | |
| **Materion ailsefyll**<br><br>Beth am bobl sydd eisoes wedi cael cymwysterau gan yr hen fyrddau – a fydden nhw'n cael cyfle i ailsefyll os y tybir fod y cymwysterau newydd yn 'well' na'r rhai gwreiddiol? A fydden nhw'n cael cyllid ar gyfer y math yna o beth?<br><br>Beth am bobl sy'n ailsefyll arholiadau, sut fydd e'n effeithio arnyn nhw?<br><br>Petai'n newid y flwyddyn flaenorol ac yna fod rhywun eisiau ailsefyll, byddai'n hollol wahanol.<br><br>Bydd angen iddyn nhw gadw rhai arholiadau ar gyfer cenhedlaeth benodol o bobl, fel y gallant ailsefyll eu harholiadau, y rhai y maent wedi dysgu ar eu cyfer. Er enghraifft, os wnaethoch chi eich TGAU dair blynedd yn ôl fel fi, mewn ychydig flynyddoedd, fyddwn i ddim yn gallu gwneud yr arholiad yna. | **4** |
| **Materion gwleidyddol**<br><br>Erbyn i Cymwysterau Cymru ddod i rym, efallai y bydd rhywun arall wedi'i ethol sy'n anghytuno gyda'r system newydd, felly mae'n bosibl na chaiff ei gyflwyno.<br><br>Mae pethau bob amser yn dod i rym sy'n newid, felly rydych chi hanner ffordd drwy gymhwyster ac mae'r diwedd yn y golwg ac yna | **4** |

| | |
|---|---|
| mae rhywun o dop yr ysgol yn dweud 'O, rydyn ni'n mynd i newid hwnna nawr', a rydych chi'n gweithio am dair blynedd arall i gael y cymhwyster.<br><br>Digwyddodd yr un peth gyda'r cyfnod sylfaen, cafodd ei gyflwyno gyda'r syniad o beidio profi plant ifanc ar eu gallu mathemateg, darllen, pethau fel 'na, sydd nawr wedi newid yn llwyr gan fod corff newydd wedi dod i mewn ac mae'n debyg y bydd yn newid eto. Mae'n mynd yn groes i'r bwriad o'i ddechrau yn y lle cyntaf.<br><br>Atebolrwydd Cymwysterau Cymru: mae gennym gynrychiolydd etholedig ar hyn o bryd - Huw Lewis sy'n gyfrifol ac yn amlwg, os oes unrhyw beth aruthrol o'i le ar yr arholiadau, yna ef yw'r un y gallwn ddal yn atebol. Ond os nad oes cynrychiolydd etholedig yn arweinydd arno, pwy fydd yn gyfrifol? Rwy'n credu y dylai atebolrwydd i'r llywodraeth fod ychydig yn fwy uniongyrchol.<br><br>Mae cyrff dyfarnu yn arbenigo mewn materion addysgol. Gallai ymyrraeth y llywodraeth gael effaith negyddol ar safonau.<br><br>Rwy'n credu mai'r llywodraeth sy'n bod yn ddiog oherwydd yr hyn maen nhw'n ei ddweud yw 'Alla i ddim â thrafferthu a dylanwadu ar yr holl fyrddau hyn, pa un sy'n werth mwy?', felly maen nhw jyst yn dweud 'iawn, un bwrdd'. Mae'n ymddangos fel syniad da ar eu cyfer nhw, ond mae'n gwneud bywyd yn anoddach i bawb arall. | |
| **Ystod y pynciau gaiff eu cynnig** | **3** |
| Mae fel y rhai od ydw i wedi'u gweld pan wnes i fy ffurflen UCAS – er enghraifft, fydd Cymwysterau Cymru yn cynnig TGAU mewn Rwsieg? A fyddant yn cadw ystod eang o gyrsiau?<br><br>Mae rhai pynciau llai cyffredin, a gynigir gan wahanhol fyrddau arholi. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd cytuno ar y casgliad o arholiadau a gynigir gan y bwrdd newydd.<br><br>A fydd yna dal yr un fath o amrywiaeth o bynciau? Mae gwahanol fyrddau'n cynnig pethau gwahanol. Efallai eich bod chi'n gwneud eich pynciau gyda CBAC ond efallai y byddwch yn dewis gwneud rhywbeth sydd ychydig yn wahanol gyda bwrdd arall am nad yw CBAC yn ei gynnig. | |

| | |
|---|---|
| Beth os yw pwnc yn cael ei ddiddymu gan Cymwysterau Cymru? Os ydynt yn rhoi'r gorau iddo, ni fydd yn bosibl i bobl gymryd y pwnc. Yn fy ysgol i, ni allem wneud Ffotograffiaeth a roedd myfyrwyr oedd am ei wneud yn gorfod teithio 20 neu 30 munud i ysgol arall i'w wneud. Os nad oedd Cymwysterau Cymru'n ei gynnig, ni fyddent yn gallu ei ddewis o gwbl. | |
| **Diweithdra**<br><br>Efallai y bydd pobl yn colli eu swyddi - yn y byrddau arholi.<br><br>Os oes gennych bum bwrdd nawr ac rydych yn cael gwared â nhw, bydd pobl yn colli eu swyddi, a bydd diweithdra yn codi.<br><br>Bydd swyddi'n cael eu colli pan fydd y byrddau arholi eraill yn peidio â bod yng Nghymru. | **3** |
| **Effaith ar rieni a theuluoedd**<br><br>Bydd yn ddryslyd i rieni hefyd, a gallech chi gael chwaer mewn blwyddyn is a'i bod hi'n cymryd cymwysterau gwahanol ac mae hi'n gofyn cwestiynau i chi ac nid ydych chi'n gallu eu hateb nhw mewn gwirionedd.<br><br>Fydd gan rieni ddim syniad am yr hyn sy'n mynd ymlaen - fel gyda fy nhad a'i gariad, maent yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen hyd yn hyn ac yna gyda'r ddau ieuengaf, mae'r cyfan yn mynd i gael ei newid. Maent yn mynd i fod angen cymorth yn y cartref.<br>Beth am y rhai nad ydynt yn hoffi newid? Mae llawer o bobl fel yna, maen nhw wedi ei ddysgu ers cymaint o amser, maent wedi arfer ag ef, rydych yn taflu rhywbeth newydd atynt, ac nid ydynt yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen. | **2** |
| **Effaith ar fyfyrwyr - straen**<br><br>Gallai hyn swnio ychydig yn anghwrtais i'r hyn y maent yn ceisio ei wneud, ond maen nhw'n rhyw fath o ganolbwyntio ar yr ochr fusnes a sut y bydd y byrddau arholi yn ffitio ond yn y pen draw, nid yw'n wir ar eu cyfer nhw, maent eisoes wedi cael eu cymwysterau, mae ar gyfer | **1** |

| | |
|---|---|
| pobl sy'n cymryd arholiadau nawr, sydd un ai ar y diwedd, hanner ffordd drwyddo neu newydd ddechrau ac sydd angen gwybod yn union beth sy'n mynd i ddigwydd, yn enwedig os nad yw wedi'i benderfynu'n swyddogol eto. Rydych yn poeni am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd pan fyddwch yn sefyll eich arholiadau, beth fyddwch yn eu sefyll a ph'un a fyddan nhw'n wahanol. Felly, yn hytrach na meddwl am yr ochr fusnes, mae angen iddynt feddwl am yr holl blant. Rydych chi wedi dod a siarad â'r saith ohonom ni, ond yna mae gweddill ein blwyddyn gyfan ni ac ni fydd ganddyn nhw unrhyw syniad ac efallai y byddant yn poeni ynghylch a fydd yr opsiynau y maent wedi eu dewis yn wahanol i'r hyn yr oeddent wedi credu'r oedden nhw. Mae angen iddo fod yn glir. Medi 2015 – mae'r dyddiad hwnnw, i ni yn golygu'n agos at sefyll eich Mathemateg ac mae peidio gwybod pa fwrdd byddwn ni'n ei sefyll yn peri pryder. | |
| **Deunyddiau**<br>Mae braidd yn annheg ar gyfer y bobl gyntaf a fydd yn gorfod dysgu ar gyfer yr arholiadau newydd. Fel bod gwybodaeth y gorffennol - fel y gwnaeth eich rhieni chi, neu dy frodyr neu chwiorydd ei wneud, ni allant eich helpu. Ni fyddwch yn gwybod beth sydd o'ch blaen. Ni fydd unrhyw bapurau gorffennol i edrych arnyn nhw.<br>A fyddai'r llyfrau, llyfrau adolygu sydd ar gyfer CBAC yn newid pan ddaw Cymwysterau Cymru i mewn? Mae gen i lwyth ar ôl fy mrawd, felly fydd Mam a Dad yn mynd i orfod prynu mwy? | **1** |
| **Dilyniant**<br>A fydd cymwysterau Cymru'n creu cyrsiau hollol newydd? Er enghraifft, gallai Ffiseg CBAC fod yn gwbl wahanol i Ffiseg OCR, felly ydyn nhw'n mynd i gymryd sampl o'r ddau?<br>Efallai y byddwn yn gwneud Lefel 'A' Cymwysterau Cymru ond rydym yn gwneud TGAU CBAC nawr, ydy hyn yn golygu y bydd yr hyn ydym ni wedi'i ddysgu yn ddiwerth i ni? Ni allant eu gwneud yn hollol wahanol. | **1** |
| **Opsiynau**<br>Faint o reolaeth fydd gan Cymwysterau Cymru dros pa opsiynau y | **1** |

| | |
|---|---|
| gallwch eu cymryd a phethau fel a yw'r Gymraeg yn bwnc gorfodol ai peidio? Rwy'n credu y dylent benderfynu bod rhaid i bawb neu neb ei wneud oherwydd ei fod yn braidd yn annheg os bydd rhai ysgolion yn ei wneud ac eraill ddim yn ei wneud. | |
| **Strwythur cyrsiau**<br>Dylent gadw modiwlau. Gallech gael diwrnod gwael pan fyddwch yn sefyll eich arholiad ac rydych wedi gwastraffu'r holl waith yna. Dydw i ddim yn hoffi arholiadau.<br>Dylai fod gennych ddewis ynghylch gwneud modiwlau neu arholiadau. | **1** |
| **Amserlen**<br>Dydw i ddim yn hoffi'r ffaith bod Cam 2 heb amserlen bendant. Allwch chi ddim gwneud yr holl bwyntiau hyn gan ddweud 'bydd hyn yn digwydd.' | **1** |
| **Risg**<br>Beth os yw Cymwysterau Cymru'n gwneud cawlach o bethau? – fydd yna ddim bwrdd arall i bobl fynd ato. | **1** |
| **Cost**<br>Bydd yn llawer o waith i newid y cyfan, ac yn costio llawer o arian. | **1** |
| **Arall**<br>Os daw hyn ar waith ym Medi 2015, beth os yw rhywun eisoes yn gwneud eu TGAU, yn mynd i mewn i flwyddyn 11 ac mae Cymwysterau Cymru, yn rheoleiddiwr, yn penderfynu bod y cymhwyster y maent yn ei wneud yn annheilwng, ydyn nhw'n mynd i golli'r cymhwyster yna? Rydych chi wedi treulio blwyddyn o'ch bywyd tuag at hynny. Hyd yn oed os ydynt yn dweud y gallwch chi gario ymlaen a'i orffen, yna mae'n debyg i 'nid yw'ch cymhwyster yn werth dim ond gallwch ddal ati, mêt'. | **1** |

### Effaith ar ganfyddiad o TGAU cyfredol

6

O ran cyflogwyr, rwy'n credu bod rhaid cael rhyw fath o safon neu strwythur penodol er mwyn ceisio sicrhau nad ydynt ddim ond yn defnyddio eu barn.

Rydym yn siarad am gyflwyno deddfau newydd felly pam lai na deddfu am hynny – beth bynnag sydd wedi digwydd yn y gorffennol, dyna ni, fel na all cyflogwyr ddiystyru cymwysterau cynharach. Mae'n rhaid cael cyfleoedd cyfartal.

Rwy'n credu y dylai fod rhyw fath o lythyr safonol neu rywbeth i gyflogwyr i ddweud eu bod yr un fath, eu bod nhw'n gyfwerth, fel nad ydynt yn drysu, nad ydynt yn credu fod un yn well na'r llall.

Ni ddylai gael ei weld, pan fyddant yn cyflwyno'r newid, fod yr hen system yn wael oherwydd y mae'n gweithio, yn amlwg, rydym ni wedi cael ein TGAU, yr un peth â sawl cenhedlaeth o'n blaenau ni,

Pan ddaw Cymwysterau Cymru, ni ellir ei ystyried yn welliant sylweddol, ond fel newid i'w wneud yn fwy effeithlon, yn hytrach na newid i wneud y cymwysterau yn fwy gwerthfawr.
Mae'n dibynnu ar sut y caiff ei gyflwyno, y ffordd y mae'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y peth ac nad ydynt yn ei bortreadu fel rhywbeth i ddatrys problem fel nad yw cyflogwyr yn credu ei fod yn well.

Peidiwch â'i alw yn welliant ar yr hen system. Mae'r system newydd yn fwy effeithlon, ydy, ond nid yw'r hen system yn ofnadwy.
Dylent ddweud ei fod yn ei gyflwyno i wneud pethau'n symlach.

Mae'n rhaid i'r llywodraeth ei gwneud hi'n glir nad yw'n un ni'n llai gwerthfawr na rhai Cymwysterau Cymru, a gwneud yn siŵr nad yw cyflogwyr yn gwahaniaethu yn erbyn ein cymwysterau.

Mae angen i'r llywodraeth roi'r gorau i'r dryswch i gyflogwyr a pheidio â gweld y cyfan fel cystadleuaeth. Dylent i gyd fod yn cael eu haddysgu ar y newid - yn union fel ydym ni nawr. Felly, dylent weld nad ydym ni o dan anfantais dim ond oherwydd fod y cymwysterau wedi newid.

| | |
|---|---|
| Gallent wneud ymgyrch, a’i roi ar y teledu, yn y papurau newydd, a’i roi o amgylch colegau.<br>Dylent wneud cyrsiau. Pan fyddwch chi'n gweithio i rywun rydych yn cael eich hanfon ar gyrsiau drwy'r amser, fel diogelu ac iechyd a diogelwch oherwydd ei fod yn newid drwy'r amser ac mae'n rhaid i chi gael eich diweddaru. Felly, pam na all hyn fod yn rhywbeth yr ydych yn mynd arno. Ni fyddai'n rhaid iddo fod drwy'r amser, dim ond nes y bydd pawb yn ei ddeall.<br>Byddai'n rhaid iddo fod yn orfodol. Fel gyda diogelu, byddech yn colli eich swydd os nad ydych yn ei wneud.<br>Hyd yn oed os yw'n gadwyn o bethau, fel dyweder ysgolion yn Sir Benfro, mae yna bob amser rhywun sydd yng ngofal hynny i gyd. Felly, byddent yn gwneud yn siŵr eu bod yn mynd a’u bod yn gwybod eu stwff, yna’n dweud wrth y bobl yn is i lawr pwy sydd angen gwybod ac yn y blaen tan fod pawb yn gwybod.<br>Mae'n rhaid iddynt eu wneud yn gyfwerth. Ni yw’r bobl olaf fydd â’r hen arholiadau.<br>Mae'n rhaid iddynt roi gwybod i bobl eu bod i gyd yr un fath. Rhowch e ar y newyddion. | |
| **Lefel yr arholiadau newydd** | **6** |
| Dylent edrych yn ôl ar yr arholiadau wnaethom ni eu sefyll a'r hen bapurau a dod o hyd i rywbeth yn y canol, i wneud yn siŵr ei fod yn gyfartal, ei fod yn deg - nad ydynt yn gwneud un haws ac nad oeddem ni chwaith.<br>Os ydynt yn eu rheoleiddio nhw’r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ar ôl hynny, yna gallant weld cyfraddau fflwcs, os bydd y gwahanol fyrddau yn cael graddau da, graddau drwg, mwy o gwynion, fel y gallant strwythuro oddi ar bob bwrdd arholi. Maent yn gallu cymryd y rhannau da o bob bwrdd arholi i wneud yr un gorau.<br>Gallant wneud cynllun peilot. Dyweder, y flwyddyn cyn iddynt eu cyflwyno, gyda’r rownd bresennol o fyfyrwyr, gallent roi arholiad iddynt ac os yw hwnnw’n rhy galed neu'n rhy hawdd, gallant ddysgu oddi wrth hynny. Ond ni fyddai mewn gwirionedd yn cyfrif am unrhyw beth. | |

| | |
|---|---|
| Ie, dylech chi'n bendant ei brofi. Allwch chi ddim ddisgwyl iddyn nhw gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Nid yw'r byd yn gweithio fel 'na.<br>Os yw Cymwysterau Cymru yn rheoleiddiwr, gadewch iddynt sefyll eu harholiad arferol, ac yna sefyll yr un newydd yn syth wedyn a dweud 'nid yw hyn yn cyfrif am unrhyw beth'. Yna, fe allech chi weld sut wnaeth pobl neu ddweud am y peilot, fod pawb wedi gwneud yn dda iawn, neu'n wael iawn, neu'n jyst iawn.<br><br>Mae'n rhaid iddyn nhw gael y lefel yn iawn cyn iddo gael ei gyflwyno ac yna ni ellir ei newid.<br><br>Rwy'n credu y dylen nhw gymryd cwestiynau allan o hen bapurau arholiad ar gyfer pob un ohonynt, fel CBAC, OCR a'u rhoi mewn un papur arholiad.<br>Mae angen cymysgedd o'r caled a'r hawdd.<br><br>Mae angen iddynt roi prawf arno gyda phobl cyn yr arholiad.<br>Fel grŵp ffocws i wneud papurau ar wahanol lefelau i weld pa gwestiynau ddylai fod yn y papurau uwch neu'r papurau is.<br><br>Dylent roi'r pethau gorau o'r holl gyrff at ei gilydd, yn un corff. | |
| **Ystyriaethau ar gyfer y pontio**<br><br>Rwy'n meddwl y dylai'r dyddiad dechrau, Medi 2015 gael ei ohirio tan 2016 gan fod 2015 ychydig yn rhy gyflym.<br><br>Pan fyddant yn ei gyflwyno, mae angen iddynt gofio bod rhai llefydd yn gwneud cyrsiau dros flwyddyn a rhai yn gwneud hynny dros ddwy flynedd. Fel gyda TGCh, mae Blaenau Gwent yn ei wneud dros 1 flwyddyn ond mae ysgolion eraill yn ei wneud dros ddwy flynedd.<br>Dylai Cymwysterau Cymru gynghori CBAC ar sut fydd eu papurau arholiad newydd er mwyn iddynt ddechrau cael pobl yn barod a symud yn araf tuag at drefn Cymwysterau Cymru.<br><br>Gyda'r bwrdd arholi newydd, oni fyddai'n haws newid pob pwnc yn araf, un ar y tro, yn hytrach na thaflu popeth i mewn ar unwaith. Bydd yr holl ddysgu'n wahanol. Gallent roi cynnig arni gydag ychydig o bynciau craidd yn gyntaf. Yna byddent yn gwybod a yw wir yn mynd i weithio neu beidio. Os ydych yn ei wneud i gyd ar unwaith, nid ydych yn gwybod a yw'r cyfan yn mynd i fynd o'i le. | **5** |

| | |
|---|---|
| Dylent wneud ffug arholiad o hwn. Allwch chi ddim disgwyl i'r athrawon wneud arholiad newydd nad ydynt erioed wedi ei weld, na'r disgyblion, mae angen ei gyflwyno'n araf. Mae angen digon o amser i fyfyrwyr ddod i arfer ag e.<br><br>Rwy'n credu fod angen iddyn nhw lenwi unrhyw fylchau yng ngwybodaeth pobl cyn sefydlu'r corff newydd. | |
| **Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol**<br><br>Rwy'n credu y dylent gadw haen uwch a haen is yn yr arholiadau newydd oherwydd bod gan bobl wahanol lefelau o ddysgu academaidd. Felly, ar gyfer pobl nad oes ganddynt lefelau da iawn gyda llythrennedd a hynny, mae'n mynd i fod yn heriol iawn iddynt os mai dim ond un haen fydd.<br><br>Rwy'n credu y dylai Cymwysterau Cymru gadw'r strwythur modiwlar ar gyfer yr arholiadau newydd.<br><br>Felly, mae'n rhaid i Cymwysterau Gymru gefnogi pobl ag anawsterau dysgu<br><br>Ystyriaethau ar gyfer pontio<br><br>Gyda'r bwrdd arholi newydd, oni fyddai'n haws newid pob pwnc yn araf, un ar y tro, yn hytrach na thaflu popeth i mewn ar unwaith. Bydd yr holl ddysgu'n wahanol. Gallent roi cynnig arni gydag ychydig o bynciau craidd yn gyntaf. Yna byddent yn gwybod a yw wir yn mynd i weithio neu beidio. Os ydych yn ei wneud i gyd ar unwaith, nid ydych yn gwybod a yw'r cyfan yn mynd i fynd o'i le.<br><br>Mae angen i Cymwysterau Cymru wneud yn siŵr nad yw pobl ag anawsterau dysgu yn cael eu gwthio i mewn i'r arholiadau haen is. Digwyddodd hynny i fi ac rwy'n meddwl y gallwn i fod wedi gwneud yr haen uwch ar gyfer rhai, petai nhw wedi gadael i mi.<br><br>Dylent gadw'r lefel sylfaen ac uwch am fod gan bobl wahanol alluoedd dysgu.<br>Dylech fod yn gallu dewis os ydych yn gwneud yr ochr ymarferol neu'r ochr academaidd, ysgrifenedig. Fel mewn Drama, byddai rhywun sy'n ddyslecsig yn cael trafferth i ysgrifennu, fel ysgrifennu sgript neu rywbeth, ond gallent fod yr actor gorau yn y byd. Byddai hynny'n eu | **4** |

| | |
|---|---|
| llusgo i lawr, yn annheg. Mae angen i Cymwysterau Cymru feddwl am hynny.<br>Mae angen i Cymwysterau Cymru gadw ati i helpu pobl sydd angen mwy o help gyda darllen ac ati. | |
| **Cynnwys y cyrsiau newydd**<br>Rwy'n credu y dylai Cymwysterau Cymru hefyd yn canolbwyntio ar addysgu sgiliau bywyd. Rydym yn gwneud yr holl cymwysterau hyn ac rydym yn cael A ac A * s ac yna rydym yn mynd gyfer cyfweliad am swydd ac nid ydym yn gwybod sut i werthu ein hunain, nid ydym yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da. Dylid ei gwneud yn rhan o'r cymwysterau Cymwysterau Cymru.<br><br>Mae gan bobl farn wahanol ar yr hyn y maent yn credu sy'n iawn i'w gynnwys mewn arholiad felly dylent gyfuno pob un o'r gwahanol bethau yr ydym wedi eu gwneud yn barod, yn hytrach na chreu rhywbeth hollol newydd a newid pob un peth.<br><br>Mae'n mynd i herio'r sgiliau addysgu ar gyfer athrawon, ond yr wyf yn meddwl na ddylech yn unig yn ateb ar strwythur, dylech fod yn ateb ar eich gwybodaeth am y pwnc. Ar gyfer ein Hanes, er enghraifft, maent yn gwneud atebion strwythuredig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'n dda oherwydd gallwch fel arfer yn cael ei hawliau, ond yna rydych chi'n ychydig fel robot pan fyddwch yn ateb. Dylai'r arholiadau newydd yn fwy am eich dealltwriaeth. | **3** |
| **Strwythur yr arholiadau newydd**<br>Rwy'n credu y dylai Cymwysterau Cymru gadw'r strwythur modiwlaidd ar gyfer yr arholiadau newydd.<br>Dylai fod gennych ddewis ynghylch gwneud modiwlau neu arholiadau. | **2** |
| **Ystod y pynciau gaiff eu cynnig**<br>Gallent wella'r cymwysterau gaiff eu cynnig drwy wneud pynciau mwy arbenigol. Felly, os bydd rhywun am fod yn ddylunydd graffig, maen nhw'n cael gwneud cymhwyster yn hynny, achos bydd rhai ysgolion yn cynnig cyrsiau yn y cyfryngau ond nid mewn meysydd mwy arbenigol.<br>Os byddant yn culhau i lawr i ddau neu dri ac yn y diwedd un bwrdd, | **2** |

| | |
|---|---|
| mae angen iddynt barhau i ystyried yr holl bynciau y mae'r byrddau cynnig ar hyn o bryd. | |
| **Iaith Gymraeg**<br>Mae angen iddynt safoni'r Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr arholiadau oherwydd dywedwyd wrthym ni y gallem gael ein cosbi oherwydd ein bod wedi dysgu Cymraeg Gogledd Cymru, ond y byddai'n cael ei farcio'n y De. | **1** |
| **Cefnogaeth**<br>Rwy'n credu y dylai fod yna gefnogaeth gyson gan y bwrdd arholi gan fod CBAC ddim ond yn ymddangos ar ddiwrnod ein harholiad. Nid ydynt yn esbonio'r hyn a ddisgwylir ohonom a phethau fel 'na, maen nhw'n disgwyl i'r athrawon egluro'r cwrs. Rwy'n credu cyn bod pobl yn dechrau eu cwrs TGAU, dylai cynrychiolydd Cymwysterau Cymru ddod i'r ysgol ac egluro beth a ddisgwylir ganddynt, nid dim ond ymddangos ar ddiwrnod yr arholiad gyda phapurau arholiad yn eu dwylo. | **1** |
| **Ansawdd**<br>Os oes gennych chi un cyfeiriad cyffredin ar gyfer y sefydliad newydd, yna gallwch ddefnyddio elfennau gorau'r hen fyrddau arholi a'r math o wahanol arddulliau a chwestiynau mwy heriol oedd yn gwneud pob un yn well – a'u ffurfio'n un peth. Mae'n fuddiol cael un dull mewn arholiad, sy'n gyffredin i bob arholiad, sy'n defnyddio rhannau gorau pob elfen. | **1** |
| **Materion ailsefyll**<br>Fyddai dim modd iddyn nhw gael graddfa amser, fel eu bod nhw'n cyflwyno'r system newydd hon, ond eu bod nhw'n cadw'r holl arholiadau eraill ar gofnod er mwyn i bobl o fewn dweud 5 i 10 mlynedd sydd angen ailsefyll fynd yn ôl i'r fan lle'r oedden nhw? Dyweder eich bod yn ei wneud am 10 mlynedd, ond os ydych chi am ei wneud ar ôl hynny, bydd yn rhaid i chi gael eich hail-ddysgu a gwneud y bwrdd newydd. | **1** |

| Materion gwleidyddol | 1 |
|---|---|
| Efallai y bydd pobl yn meddwl bod y llywodraeth yn ceisio’i fonopoleiddio braidd, yn cael gwared ar y byrddau arholi. Dylent wneud pobl yn ymwybodol nad yw achos yr arian, ond ei fod er lles y myfyrwyr. Bydd pobl yn neidio i gasgliad. Mae llawer o bobl yn dweud 'a, mae'r llywodraeth jyst eisiau arian', ond dylent bwysleisio'r ffaith ei fod i wneud ag addysg a lles. | |

# 6. Crynodeb o’r themâu allweddol

Yma rydym yn gwneud crynodeb o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob un o'r cwestiynau ymgynghori. Rydym yn dangos nifer y digwyddiadau ble codwyd y materion hyn allan o'r cyfanswm ble gofynwyd cwestiynau penodol (gofynnwyd cwestiwn 1 ymhob un o’r 13 digwyddiad, tra bod cwestiynau 2 a 3 wedi’u gofyn mewn 11 digwyddiad). Caiff materion eu cynnwys yn themâu allweddol ddim ond os y codwyd nhw mewn o leiaf 3 o'r digwyddiadau.



## Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

Yn gyffredinol, gwelwyd y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru, gyda chanmoliaeth arbennig am degwch a symlrwydd cynyddol y system. Gwnaed sylwadau cadarnhaol hefyd gan gyfranogwyr ar y manteision posibl i siaradwyr Cymraeg, yr hyder cynyddol a gaiff ei annog gan well ansawdd a'r ffaith y bydd hi'n haws i fyfyrwyr symud rhwng ysgolion yng Nghymru.
Ochr yn ochr â'r manteision canfyddedig hyn, mynegodd y cyfranogwyr hefyd nifer o bryderon am y ffordd y caiff y system newydd ei chyflwyno a'i rheoli.

**Canfyddiad o TGAU cyfredol** (11/13)

Cododd y cyfranogwyr ymhob grŵp y pryder hwn, ac eithrio'r ddau grŵp cyn-TGAU sy'n fwy tebygol o sefyll yr arholiadau newydd ac, felly, sydd ddim yn cael eu heffeithio ar unwaith gan y mater hwn.

Y prif bryder oedd bod y problemau sy'n codi o'r gwahanol ganfyddiadau ynghylch ansawdd y cymwysterau a gynigir gan y gwahanol Gyrff Dyfarnu, yn symud i fod yn gymhariaeth rhwng yr hen gymwysterau a'r rhai newydd, rhwng TGAU a Lefel A cyn ac ar ôl Cymwysterau Cymru.

Nododd cyfranogwyr os mai'r bwriad yw cynhyrchu y cymwysterau uchaf posibl eu parch, gaiff eu gweld ledled Cymru, y DU a'r byd fel y 'safon aur', yna a fydd hyn yn adlewyrchu ar yr hyn oedd yn bodoli o'r blaen. Os daw'r TGAU a Lefel A cyfredol i'w gweld yn gymwysterau o ansawdd is, mae'r goblygiadau ar gyfer y cyfranogwyr yn peri pryder mawr, o ran addysg bellach a rhagolygon cyflogaeth.

Er mwyn goresgyn y broblem bosibl hon, awgrymodd y cyfranogwyr dri prif ddull: marchnata, addysg a gorfodi. Roeddent yn teimlo'n gryf y dylai'r pwyslais wrth farchnata system Cymwysterau Cymru fod ar symlrwydd a thegwch yn hytrach nag ansawdd y cymwysterau a gynigir. Cafwyd llawer o awgrymiadau ar gyfer ymgyrch addysg wedi'i chyfeirio at ganfyddiad y cyhoedd a dealltwriaeth sefydliadau addysg a chyflogwyr o ran cydraddoldeb cymwysterau cyn ac ar ôl Cymru Cymwysterau. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd y dylai fod rhyw fodd cyfreithiol neu bolisi o sicrhau nad yw cyflogwyr yn gwahaniaethu ar sail y rhai sydd â'r TGAU a'r Safon Uwch newydd a'r rhai sydd hebddynt.

**Effaith ar bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol** (7/13)

Cododd y thema hon o ddau o brif bryderon:

1. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn deall mai un o'r rhesymau y mae ysgolion yn dewis Cyrff Dyfarnu gwahanol o dan y system bresennol yw er mwyn gweddu i anghenion eu myfyrwyr. Mae rhai byrddau yn cael eu gweld fel rhai sy'n cynnig cyrsiau llai academaidd heriol a gall y rhain gael eu dewis er mwyn gweddu myfyrwyr gyda gallu academaidd is.

2. Mae rhai o'r byrddau presennol yn cynnig gwell cymorth ar gyfer ADY nag eraill, megis papurau wedi'u haddasu, darparu offer, meddalwedd, ac ati. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf y dylai Cymwysterau Cymru gynnig y cyfleoedd gorau posibl i bobl ag ADY. Dylai hyn fod ar ffurf gwahaniaethu o fewn y cymwysterau a gynigir, gan barhau â'r system haen a modiwlau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ystyried geiriad cwestiynau a deunydd, darparu deunyddiau wedi'u haddasu ac offer, meddalwedd, ac ati.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon** (7/13)

Codwyd nifer o bryderon ynghylch y llwyth gwaith ychwanegol fyddai'n cael ei osod ar athrawon, fyddai'n gorfod gwneud y newid i feysydd llafur cwrs newydd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio pan fydd efallai angen iddynt gyflwyno cyrsiau ar gyfer nifer o wahanol gymwysterau ar yr un pryd. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn ystyried nad yw ysgolion ac athrawon wedi arfer gwneud newidiadau o'r fath oherwydd eu bod wedi bod yn cyflwyno'r un cymwysterau a chyrsiau am flynyddoedd lawer.

**Cysondeb gyda gweddill y DU** (5/13)

Roedd y cyfranogwyr yn pryderu am y posibilrwydd y gallai cymwysterau newydd Cymwysterau Cymru gael eu hystyried gydag amheuaeth gan brifysgolion a cholegau tu allan i Gymru, a thrwy hynny beryglu cyfleoedd myfyrwyr o Gymru o barhau eu haddysg yng ngweddill y DU.

Cafwyd trafodaeth hefyd am y problemau a allai godi ar gyfer myfyrwyr iau yn symud ysgolion yn y naill gyfeiriad rhwng Cymru a Lloegr. Cydnabuwyd, er y gall hyn achosi problemau ar hyn o bryd oherwydd bod ysgolion yn defnyddio Cyrff Dyfarnu gwahanol a gall myfyrwyr symud i ysgol sy'n dysgu gwahanol gyrsiau gyda gwahanol meysydd llafur, unwaith bydd Cymwysterau Cymru ar waith, bydd hyn yn sicr o fod yn wir.

**Ystyriaethau ar gyfer pontio** (5/13)

Roedd ffocws cyfranogwyr ar sut y gallai'r system newydd gael ei chyflwyno gyda'r amhariad a risg lleiaf posibl ar gyfer dysgwyr ac ysgolion. Roedd eu pwyslais ar yr angen am bontio araf, pwyllog sy'n adlewyrchu'r amser y bydd yn ei gymryd i athrawon a disgyblion i addasu i'r system newydd ac sy'n cymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth rhwng ysgolion yn y ffordd y maent yn rhedeg cyrsiau (dros 1 neu 2 mlynedd).

Hefyd, cododd y mater ynghylch Cam 1 y broses bontio, gyda Cymwysterau Cymru yn rheoleiddiwr y Cyrff Dyfarnu sy'n bodoli eisoes. Petai Cymwysterau Cymru'n barnu nad yw cwrs penodol yn foddhaol, byddai angen iddynt ystyried yr effaith ar y myfyrwyr hynny a allai fod yng nghanol y cwrs hwnnw neu'n ei ddewis.

**Lefel yr arholiadau newydd** (4/13)

Roedd cyfranogwyr yn poeni bod Cymwysterau Cymru yn ystyried o ddifrif sut y mae'n cyflawni'r lefel gywir o anhawster ar gyfer yr arholiadau newydd, o ystyried mai un o'r prif broblemau gyda'r system bresennol yw'r canfyddiad o anhawster amrywiol ar draws y byrddau.

Roedd awgrymiadau'n cynnwys defnyddio cydbwysedd o ddeunydd rhwng papurau arholiad blaenorol a gwahanol fyrddau a sefydlu grwpiau peilot / ffocws i fesur y lefel fwyaf priodol o anhawster i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr. Awgrymwyd hefyd, er mwyn tegwch a chysondeb, na ddylid newid y lefel am beth amser, unwaith ei fod wedi ei osod.

**Materion ailsefyll** (4/13)

Roedd ffocws y pryderon ar ddau bosibilrwydd:

1. Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun wedi astudio ar gyfer y cymwysterau cyn-Cymwysterau Cymru ac yna'n dymuno ailsefyll unwaith y bydd system Cymwysterau Cymru'n bodoli?

2. Os yw'r system Cymwysterau Cymru yn cael effaith negyddol ar y canfyddiad o'r cymwysterau cyn-Cymwysterau Cymru, a fydd pobl yn cael eu cefnogi i ailsefyll er mwyn ennill y cymhwyster newydd?

Dywedodd un cyfranogwr y dylai'r cyrsiau cyn-Cymwysterau Cymru barhau i gael eu cynnig ar gyfer ailsefyll dros nifer rhesymol o flynyddoedd yn dilyn cyflwyno'r system newydd.

**Materion gwleidyddol** (4/13)

Roedd y cyfranogwyr yn pryderu am y berthynas rhwng y llywodraeth a Chymwysterau Cymru:

1. Na fydd newid mor fawr yn cael ei ddefnyddio fel pêl-droed wleidyddol pe bai cyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad Cenedlaethol yn newid neu pe bai agweddau yn newid dros amser. Defnyddiwyd y Cyfnod Sylfaen yn enghraifft o sut y gall polisi addysgol gael ei effeithio gan newidiadau gwleidyddol ac agweddol a'r effaith andwyol y gall hyn ei chael ar ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.

2. Nad yw annibyniaeth Cymwysterau Cymru yn lleihau ei atebolrwydd.

**Cynnwys y cyrsiau newydd** (3/13)

Roedd cyfranogwyr yn teimlo fod hwn yn gyfle i ystyried cynnwys yr holl gyrsiau a'r pwyslais addysgol sydd ganddynt. Awgrymodd rhai y dylai pob cymhwyster fod â rhyw elfen o Sgiliau Bywyd er mwyn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio eu dysgu yn y modd gorau yn y byd go iawn, tra byddai eraill yn hoffi mwy o bwyslais ar feithrin dealltwriaeth yn hytrach na dysgu fformiwla i basio arholiadau.

**Ystod y pynciau gaiff eu cynnig** (3/13)

Roedd pryder na ddylai'r system newydd leihau'r ystod o bynciau a gynigir ar lefel TGAU a Lefel A. Nodwyd os yw myfyriwr yn dymuno astudio pwnc anarferol o ddiddordeb lleiafrifol roedd hi'n aml yn bosibl dod o hyd i un o'r Cyrff Dyfarnu presennol yn ei gynnig a'i bod yn llai tebygol y byddai Cymwysterau Cymru yn gallu cynnig amrywiaeth o'r fath.

**Diweithdra** (3/13)

Roedd pryder y byddai rhoi terfyn ar weithgareddau Byrddau Arholi yng Nghymru yn arwain at gynnydd mewn diweithdra.

## Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer CDP?

**RhUD**

Mae'n werth nodi mai dim ond nifer fach iawn o gyfranogwyr oedd ag unrhyw ymwybyddiaeth o fodolaeth eu Rhif Unigryw'r Dysgwr. Dywedodd y mwyafrif

llethol, pe baent yn cael cynnig y rhif yn uniongyrchol, byddai'n well ganddynt ei gael ar ffurf cerdyn plastig, gyda nifer yn mynegi dymuniad i gael dulliau eraill o fynediad, megis gwefan ddiogel rhag ofn eu bod yn colli'r cerdyn.

**CDP**

Roedd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig am y CDP oherwydd y modd y byddai'n caniatáu myfyrwyr i gael mynediad at gofnodion eu cyflawniadau nhw. Yn benodol, roedd croeso i'r cynnig o ran cofnodi teitlau cwrs a graddau a'r cymorth fyddai hyn yn ei roi wrth  lenwi ffurflenni UCAS a llunio CV.
Mynegodd yr holl grwpiau bryderon hefyd ynghylch y modd y mae'r CDP yn cael ei reoli ynghylch:

**Diogelwch** (10/11)

Mynegwyd pryder mawr ynglŷn â'r angen am ddiogelwch ar lefel uchel ar gyfer y system. Trafododd y cyfranogwyr y posibilrwydd o hacwyr yn cam-drin y system i newid gwybodaeth am unigolion neu at ddibenion dwyn hunaniaeth.

**Dibynadwyedd** (6/11)

Mynegodd y cyfranogwyr eu pryderon am y goblygiadau o system yn chwalu, a allai arwain at golli gwybodaeth neu o leiaf analluogi i gael mynediad i'r data am gyfnodau o amser.

**Mynediad** (5/11)

Cododd y mater o bwy fydd yn gallu cael mynediad i'r data gryn drafodaeth, gyda rhai cyfranogwyr yn ystyried y byddai'n dda pe bai darpar gyflogwyr yn gallu gweld y wybodaeth ac eraill yn pryderu am faterion preifatrwydd. Roedd yr holl gyfranogwyr a gododd y pwnc hwn yn ystyried ei bod hi'n hanfodol y dylai unigolion gael yr hawl i benderfynu pwy all gael mynediad at eu gwybodaeth. Cododd y broblem o bobl sydd heb fynediad i'r we hefyd.

## Sut fyddai orau gennych chi gael gwybodaeth ar gymwysterau?

**Profiadau'r Gorffennol**

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru i gael gwybodaeth am gymwysterau, lleoliadau profiad gwaith, ac ati. Cafwyd ymateb cymysg i'r wefan, gyda nifer sylweddol yn mynegi pryderon ynghylch ei

gymhlethdod ac anhawster ei defnydd.

Roedd rhai cyfranogwyr wedi casglu gwybodaeth o wefannau eraill megis Unistats ac UCAS.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr wedi defnyddio gwybodaeth wyneb yn wyneb, trwy ymgynghorwyr Gyrfa Cymru (mewn canolfannau GC ac mewn ysgolion) neu gan ymgynghorwyr gyrfaoedd ac athrawon ysgol.

**Hoffterau**

Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod yn well ganddynt gyngor wyneb-yn-wyneb gan ymgynghorwyr gyrfaoedd neu staff dysgu, gan nodi’r angen am arweiniad yn ogystal â gwybodaeth.

Er bod rhai wedi mynegi hoffter o gael gwybodaeth ar-lein, roedd nifer o awgrymiadau ar sut y gellid gwella’r profiad hwn:

- Defnyddio deunydd fideo ar-lein i egluro cyrsiau a chymwysterau. Mynegodd sawl myfyriwr anhawster wrth ddeall yr iaith gymhleth a ddefnyddir ar wefannau prifysgolion a’u hoffter o ddeunydd mwy gweledol.
- Datblygu Ap ffôn sy'n esbonio cymwysterau, gofynion y cwrs, ac ati.

cognition empowering people

www.cognitionassociates.co.uk